# Llawlyfr yr Ysgol David Hughes

# School Handbook

**Pennaeth/Headteacher**
**Mrs Mari Roberts BSc**
**Ffordd Pentraeth, Porthaethwy, Ynys Môn, LL59 5SS**
**01248 712287**
**www.ysgoldavidhughes.org**

# GWEFAN YR YSGOL/SCHOOL WEBSITE: www.ysgoldavidhughes.org

## Facebook

**Ysgol David Hughes YDH**

## Instagram

| | |
|---|---|
| **Addysg Gorfforol/Physical Education -** | @addysggorfforolydh |
| **Chweched Dosbarth/Sixth Form-** | @davidhughes6ed |
| **Drama-** | @drama_ysgoldavidhughes_ |
| **Technoleg / Technology -** | @dt_ydh |



# Ein gweledigaeth/ Our Vision

Rydym yn ymrwymo i gynnig yr addysg ddwyieithog orau a mwyaf perthnasol i bob dysgwr yn ddiwahân a chreu cymdeithas agored a chynhwysol sy'n parchu safbwyntiau, dyheadau a gobeithion pawb sy'n rhan o gymuned yr ysgol

We are committed to offering every pupil without exception the best and most relevant bilingual education and to create an open and iclusive society which respects standpoints, aspirations and hopes of all those who are part of the school community



# YSGOL DAVID HUGHES

Ysgol Gyfun Gymunedol Ddwyieithog
Bilingual Community Comprehensive School
11 – 18

**PORTHAETHWY - MENAI BRIDGE**
**YNYS MÔN - ANGLESEY**
**LL59 5SS**

***Rhif Ffôn/Telephone Number***
**(01248) 712287**

***Cyfeiriad E-Bost/E-Mail Address***
**6604028_pennaeth.ydh@Hwbcymru.net**

***Cyfeiriad Tudalen Cartref/Home Page Address***

# http://www.ysgoldavidhughes.org




**Pennaeth/Head teacher**

**Mrs Mari Roberts BSc**

**Medi/September**

**2026**

# Llywodraethwyr yr Ysgol
# The School Governors

**CADEIRYDD Y LLYWODRAETHWYR / CHAIRPERSON OF THE GOVERNORS**
Dr Hywel Wyn Jones

**VICE CHAIRPERSON / IS-GADEIRYDD**
Mrs Nia Wright Morgan

**CYNRYCHIOLWYR AWDURDOD ADDYSG LLEOL/ REPRESENTATIVES OF THE LOCAL EDUCATION AUTHORITY**
Cynghorydd/Councillor Carwyn Elias Jones
Cynghorydd/Councillor Dyfed Wyn Jones
Cynghorydd/Councillor Euryn Morris
Cynghorydd/Councillor Alun Roberts
Cynghorydd/Councillor Robin Wyn Williams

**CYNRYCHIOLWYR RHIENI / PARENTS' REPRESENTATIVES**
Mr Kristjan Arhonson
Mrs Helen Bebb
Mrs Rhiannon Elis-Williams
Mrs Simona Mannion
Mrs Nia Wright Morgan
Mrs Christina Williams

**CYNRYCHIOLYDD STAFF CEFNOGOL / SUPPORT STAFF REPRESENTATIVE**
Mrs Wendy Williams

**CYNRYCHIOLWYR ATHRAWON / TEACHERS' REPRESENTATIVES**
Mrs Manon Gwynne Dafydd
Mr Alun Roberts

**AELODAU CYFETHOLEDIG / CO-OPTED MEMBERS**
Mr Paul Davies
Mrs Nia Lloyd Griffiths
Dr Lowri Angharad Hughes
Dr Hywel Wyn Jones
Mrs Lisabeth Roberts

**PENNAETH / HEAD TEACHER**
Mr Mari Roberts BSc

Gellir cysylltu â'r llywodraethwyr trwy'r ysgol.
Governors may be contacted via the school.

**CYFARWYDDWR ADDYSG, SGILIAU A PHOBL IFANC CYNGOR SIR YNYS MÔN**
**DIRECTOR OF EDUCATION, SKILLS AND YOUNG PEOPLE ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL**
Mr Aaron Evans, Swyddfeydd Y Sir, Llangefni, Ynys Môn
Rhif Ffôn/Telephone (01248) 752900

**SWYDDOG PLANT MEWN GOFAL A SWYDDOG AMDDIFFYN PLANT YR YSGOL/ LOOKED AFTER CHILDREN'S OFFICER AND THE SCHOOL'S CHILD PROTECTION OFFICER**
**Mr Geraint P Williams**

# Neges gan y Pennaeth



Annwyl Riant/Gwarcheidwad

Croeso i Ysgol David Hughes. Fel Pennaeth, rwy'n falch iawn o'ch cyflwyno i'n cymuned hapus a chynhwysol. Rydym yn ymroddedig i ddarparu addysg ragorol ble mae pob plentyn yn cael ei annog i ddatblygu ei ddoniau a chyflawni ei botensial.

Credwn mewn meithrin amgylchedd ble mae parch a chyfrifoldeb wrth wraidd popeth a wnawn. Mae ein staff medrus a chydwybodol yn gweithio gyda'i gilydd i greu awyrgylch dysgu heriol ond cefnogol ac mae ein hardaloedd sy’n cynnig cymorth i ddysgwyr: Y Gorad, Y Porth, Yr Harbwr a'r Hafan, yn sicrhau bod pob myfyriwr yn cael y sylw y maent yn ei haeddu, gan gynnwys y rhai ag Anghenion Dysgu Ychwanegol.


Rydym yn cynnig cwricwlwm eang a chytbwys sy'n herio myfyrwyr i feddwl yn feirniadol, bod yn greadigol, ac ymgysylltu â'r byd o'u cwmpas. Rydym yn arbennig o falch o'n hachrediad NACE sy'n dangos ein rhagoriaeth o ran darpariaeth ar gyfer dysgwyr mwy abl a thalentog. Mae ein cynnig allgyrsiol, sy'n cynnwys chwaraeon, y celfyddydau mynegiannol, ieithoedd a chyfleoedd arwain, yn cyfoethogi profiadau myfyrwyr ymhellach, gan ganiatáu iddynt dyfu'n academaidd ac yn bersonol. Rydym yn Ysgol sy'n Parchu Hawliau, fel y cydnabyddir gan ein Gwobr Aur UNICEF.

Rydym yn ymfalchïo yn y modd y mae ein partneriaeth gyda rhieni a'r gymuned leol yn ein helpu i ddarparu addysg gyflawn. Credwn fod llwyddiant yn seiliedig ar gydweithio, ac rydym wedi ymrwymo i weithio'n agos gyda theuluoedd i sicrhau bod taith pob myfyriwr drwy ein hysgol yn un hapus ac yn un llwyddiannus.

Rwyf yn eich gwahodd i edrych drwy ein prosbectws a dysgu mwy am y gwerthoedd sy'n ein harwain, a darganfod sut y gallwn helpu'ch plentyn i ffynnu.

Diolch am ystyried Ysgol David Hughes. Rydym yn edrych ymlaen at eich croesawu chi a'ch teulu i'n hysgol.

Yn gywir,



Mrs Mari Roberts
**PENNAETH**

# A Message from the Headteacher



Dear Parent/Guardian

Welcome to Ysgol David Hughes. As the Headteacher, I am delighted to introduce you to our happy and inclusive school community. We are dedicated to providing an excellent education where every child is encouraged to develop their talents and achieve their full potential.

We believe in fostering a nurturing environment where respect and responsibility are at the heart of all we do. Our skilled and conscientious staff work together to create a challenging yet supportive learning atmosphere and our pupil support areas: Y Gorad, Y Porth, Yr Harbwr and Yr Hafan ensure that each student receives the individual attention they deserve, including those with Additional Learning Needs.


We offer a broad and balanced curriculum that challenges students to think critically, be creative, and engage with the world around them. We are particularly proud of our NACE accreditation which demonstrates our excellence in provision for more able and talented learners. Our extra-curricular offer, which includes sports, expressive arts, languages and leadership opportunities, further enrich the student experience, allowing them to grow both academically and personally. We are a Rights Respecting School, as recognised by our UNICEF Gold Award.

We are also proud of our partnership with parents and the local community – a partnership which helps us provide a well-rounded education. We believe that success is built on collaboration, and we are committed to working closely with families to ensure that every student's journey through our school is fulfilling and successful.

We invite you to explore our prospectus, learn more about the values that guide us, and discover how we can help your child thrive.

Thank you for considering Ysgol David Hughes. We look forward to welcoming you and your family to our school.

Yours sincerely,



Mrs Mari Roberts B
**HEADTEACHER**

# CYNNWYS/CONTENT

**RHAN/PART 1**
**GWYBODAETH GYFFREDINOL AM YR YSGOL**
**GENERAL INFORMATION ABOUT THE SCHOOL** .. .. .. .. .. .. .. 7
Nod ac Amcanion yr Ysgol/The School's Aims and Objectives .. .. .. .. 8
Diwrnod Ysgol/School Day .. .. .. .. .. .. .. .. 8
Gwyliau ysgol/School holidays .. .. .. .. .. .. .. .. 8
Trefniadau Awr Ginio/Lunch Hour Arrangements .. .. .. .. .. 9
Polisi Gwisg Ysgol/School Uniform Policy. .. .. .. .. .. .. 9
Trefniadau Mynediad/Admission Arrangements .. .. .. .. .. 10
Mynediad i Wybodaeth/Access to Information .. .. .. .. .. 12
Meddygol/Medical .. .. .. .. .. .. .. .. .. 12
Clinig Disgyblion/Pupils' Clinic .. .. .. .. .. .. .. .. 12
Iechyd a Diogelwch/Health and Safety.. .. .. .. .. .. .. 12
Trefniadau Argyfwng – Cau'r Ysgol/Arrangements in an Emergency – Closing the School 13
Cerbydau a Bysiau ar dir yr ysgol/Vehicles and Buses on the school grounds .. .. 13
Trefniant Ymweld/Visiting Arrangements .. .. .. .. .. .. 15
Datblygiad Ysbrydol/Spiritual Development.. .. .. .. .. .. .. 15
Addysg Gorfforol/Physical Education .. .. .. .. .. .. .. 16
Gwersi Cerdd/Music Lessons .. .. .. .. .. .. .. 16
Dathlu Llwyddiant/Celebrating Success .. .. .. .. .. .. 16

**RHAN/PART 2**
**POLISÏAU'R YSGOL/SCHOOL POLICIES** .. .. .. .. .. .. .. .. 17
Polisi Iaith/Language Policy .. .. .. .. .. .. .. .. 18
Gwaith Cartref/Homework .. .. .. .. .. .. .. 18
Polisi Addysg Rhyw a Pherthnasoedd /Sex Education and Relationships Policy .. .. 19
Polisi Trefn Cwyno/Complaints Policy .. .. .. .. .. .. 19
Polisi Codi Tâl/Policy on Charging .. .. .. .. .. .. 20
Polisi Cyfle Cyfartal/Equal Opportunity Policy .. .. .. .. .. .. 20
Cynllun Cyhoeddi/Publication Scheme .. .. .. .. .. .. .. 20
Y Rhyngrwyd/Internet Safety .. .. .. .. .. .. .. .. 21
Polisi Cydraddoldeb Hiliol ac Amryfaliaeth Diwylliannol
Race Equality and Cultural Diversity Policy 21

**RHAN/PART 3**
**GOFAL BUGEILIOL/PASTORAL CARE** .. .. .. .. .. .. .. .. 22
Fframwaith Gofal Bugeiliol/Pastoral Care Framework .. .. .. .. 23
Hyrwyddo Ymddygiad Da/Promoting Good Behaviour.. .. .. .. .. 23
Cyswllt â'r Cartref/Home and School Contact .. .. .. .. .. .. 25
Ffonau Symudol/Chwaraewyr MP3/Camerâu/Mobile Phones/MP3 Players/Cameras .. 25
Ymweliadau Addysgol/Clybiau a Chymdeithasau/Educational Visits/Clubs & Societies .. 25
Cytundeb Partneriaeth/Partnership Agreement .. .. .. .. .. 26
Presenoldeb/Attendance .. .. .. .. .. .. .. .. 27

**RHAN/PART 4**
**Y CWRICWLWM/THE CURRICULUM** .. .. .. .. .. .. .. .. 29
Cwricwlwm/Curriculum .. .. .. .. .. .. .. .. .. 30
Anghenion Dysgu Ychwanegol/Additional Learning Needs .. .. .. .. 33
Asesu/Assessment .. .. .. .. .. .. .. .. .. 33
Cyfleoedd yn 16+/Opportunities at 16+ .. .. .. .. .. .. .. 34
Addysg a Chyfarwyddyd Gyrfaoedd/ Careers Education and Guidance .. .. 34

**RHAN/PART 5**
**CANLYNIADAU ARHOLIADAU/EXAMINATION RESULTS** .. .. .. .. .. .. 35

**RHAN/PART 6**
**HYNT DISGYBLION/DESTINATION OF PUPILS..** .. .. .. 40

# Rhan 1
# Part 1




## Gwybodaeth Gyffredinol am yr Ysgol

## General Information about the School

# Nôd ac Amcanion yr Ysgol

Nôd yr ysgol, mewn partneriaeth â disgyblion/rhieni a llywodraethwyr yw creu awyrgylch sy'n caniatáu i'r disgyblion ddatblygu i'w potensial eithaf, ac wynebu'n hyderus ofynion ein cymdeithas fodern ddwyieithog.

1. Ceisio meithrin cymdeithas waraidd sydd yn pwysleisio gwerthoedd moesol a dynol gan roi sylw penodol i oddefgarwch a gofal dros eraill, yn arbennig y rhai lleiaf ffodus mewn bywyd.
2. Datblygu sylfaen o lythrennedd a gwybodaeth fathemategol, wyddonol a thechnegol i alluogi'r disgybl i ddysgu sgiliau hanfodol gwaith a hamdden ar gyfer heddiw a'r cyfnod technolegol a fydd yn ei wynebu yn y dyfodol.
3. Paratoi'r disgybl i wneud cyfraniad llawn i fywyd y gymdeithas y mae'n rhan ohoni. Yn achos Môn cymdeithas ddwyieithog yw honno, felly, fe ddylid sicrhau bod pob disgybl yn cael y cyfle i ddod yn ddwyieithog os ydyw am gyrraedd y nod hwn.
4. Dysgu disgybl am gamp a dyheadau dyn yn y celfyddydau, y gwyddorau a chrefydd a'r ymchwil am gymdeithas gyfiawn.
5. Ceisio cynorthwyo'r disgybl i ddatblygu meddwl ymchwilgar, bywiog; i holi a dadlau'n rhesymegol ac yna i ymroi i dasgau penodol.
6. Ceisio cynorthwyo'r disgybl i ddeall sut y mae gwlad yn ennill ac yn cynnal ei safon byw gan roi sylw yn arbennig i bwysigrwydd diwydiant a byd gwaith.
7. Paratoi cwricwlwm sy'n eang, cytbwys, perthnasol a gwahaniaethol.

# Diwrnod Ysgol –

Rhennir y diwrnod fel a ganlyn: Wedi ddiweddaru Medi 2025

Myfyrio ar ddysgu a chynnydd / Cynllunio ôl 16 / Addysg Gyrfaoedd a phrofiadau sy'n gysylltiedig â byd Gwaith

| LLun/Mercher/Iau/Gwener | | Mawrth | |
|---|---|---|---|
| 08:50 - 09:10 | Cofrestru | 08:50 - 09:40 | Myfyrio a Chynllunio |
| 09:10 - 10:00 | Gwers 1 | 09:40 - 10:25 | Gwers 1 |
| 10.00 - 10:50 | Gwers 2 | 10:25 - 11:10 | Gwers 2 |
| 10:50 - 11:10 | Egwyl | 11:10 - 11:30 | Egwyl |
| 11:10 - 12:00 | Gwers 3 | 11:30 - 12:15 | Gwers 3 |
| 12:00 - 12:50 | Gwers 4 | 12:15 - 13:00 | Gwers 4 |
| 12:50 - 13:40 | Cinio | 13:00 - 13:50 | Cinio |
| 13:40 - 14:30 | Gwers 5 | 13:50 - 14:35 | Gwers 5 |
| 14:30 - 15:20 | Gwers 4 | 14:35 - 15:20 | Gwers 6 |

# Gwyliau Ysgol 2026-2027

| TYMOR | GWYLIAU |
|---|---|
| **HYDREF 2026**<br>2 Medi – 18 Rhagfyr | (31 Awst a 1 Medi 2026 – Hyfforddiant Mewn Swydd – dim ysgol i'r disgyblion)<br>Ysgol yn cychwyn - 2 Medi 2026<br>26 Hydref – 30 Hydref 2026 (Hanner Tymor yr Hydref)<br>21 Rhagfyr 2026 – 1 Ionawr 2027 (Gwyliau'r Nadolig) |
| **GWANWYN 2027**<br>4 Ionawr – 19 Mawrth | 08 – 12 Chwefror 2027 (Hanner Tymor y Gwanwyn)<br>22 Mawrth – 02 Ebrill 2027 (Gwyliau'r Pasg) |
| **HAF 2027**<br>5 Ebrill – 16 Gorffennaf | 3 Mai 2027 (Calan Mai)<br>31 Mai – 04 Mehefin 2027 (Hanner Tymor y Sulgwyn)<br>19 Gorffennaf – 27 Awst 2027 (Gwyliau'r Haf) |

****DYDDIADAU I'W CADARNHAU****
**Byddwn hefyd yn eich hysbysu yn nes i'r amser am unrhyw ddyddiadau Hyfforddiant Mewn Swydd ychwanegol**

# The School's Aims and Objectives

The school aims, in partnership with pupils, parents and governors to create an atmosphere that will allow all pupils to develop to their full potential and, in doing so, meet the needs and demands of our changing bilingual society.

1. To seek to nurture a civilised society which stresses human and moral values, paying special attention to tolerance and compassion for others, particularly the least fortunate in life.
2. To develop a basis of literacy and mathematical, scientific and technical knowledge which will enable the pupil to learn the essential skills of work and leisure for today's needs and those of the technological age which will be faced in the future.
3. To prepare the pupil to make a full contribution to the life of the society of which he/she is a part. In the case of Anglesey that is a bilingual society and it is, therefore, necessary to ensure that every pupil has the opportunity to learn to communicate verbally and in writing in both languages.
4. To teach pupils about human achievements and aspirations in the arts, the sciences, religion and the search for a just society.
5. To assist pupils to develop enquiring, lively minds; to question and to argue logically and then to undertake specific tasks.
6. To assist pupils to understand how a country earns and maintains its standards of living, paying particular attention to the importance of industry and employment.
7. To prepare a broad, balanced, relevant and differentiated curriculum.

# The School Day -

The pattern of the school day is as follows: Updated September 2025

Reflections on learning and progress / Post-16 planning / Careers and Work-Related Experiences

| Mon/Weds/Thurs/Fri | | Tuesday | |
|---|---|---|---|
| 08:50 - 09:10 | Registration | 08:50 - 09:40 | Reflect and Plan |
| 09:10 - 10:00 | Lesson 1 | 09:40 - 10:25 | Lesson 1 |
| 10.00 - 10:50 | Lesson 2 | 10:25 - 11:10 | Lesson 2 |
| 10:50 - 11:10 | Break | 11:10 - 11:30 | Break |
| 11:10 - 12:00 | Lesson 3 | 11:30 - 12:15 | Lesson 3 |
| 12:00 - 12:50 | Lesson 4 | 12:15 - 13:00 | Lesson 4 |
| 12:50 - 13:40 | Lunch | 13:00 - 13:50 | Lunch |
| 13:40 - 14:30 | Lesson 5 | 13:50 - 14:35 | Lesson 5 |
| 14:30 - 15:20 | Lesson 4 | 14:35 - 15:20 | Lesson 6 |

# School Holidays 2026-2027

| TERM | HOLIDAYS |
|---|---|
| **AUTUMN 2026**<br>2 September-<br>18 December | (31 August & 1 September 2026 - Teacher Training Days – no school for pupils)<br>School Starts 2 September 2026<br>26 October – 30 October 2026 (Autumn Half Term)<br>21 December 2026 – 1 January 2027 (Christmas Holidays) |
| **SPRING 2027**<br>4 January – 19 March | 08 - 12 February 2027 (Spring Half Term)<br>22 March – 02 April 2027 (Easter Holidays) |
| **SUMMER 2027**<br>15 April - 16 July | 3 May 2027 (May Day)<br>31 May – 04 June 2027 (Whitsun Half Term)<br>19 July – 27 August 2027 (Summer Holidays) |

****DATES TO BE CONFIRMED****
**We shall inform you nearer the time with regards to any extra Teacher Training Days**

# Trefniadau Awr Ginio

1. Er lles y plant, mae'n ofynnol iddynt yn ystod yr awr ginio:
   - gymryd cinio ysgol, neu
   - ddod â'u bwyd eu hunain i'w fwyta yn yr ysgol
2. Ni chaniateir i ddisgyblion ym Mlynyddoedd 7,8 9,10 ac 11 adael tiriogaeth yr ysgol yn ystod yr awr ginio.
3. Os yw rhiant yn dymuno gwneud cais am ginio di-dâl dylid gwneud cais drwy'r adain budd-daliadau, Cyngor Sir sy'n lleol iddynt.

# Polisi Gwisg Ysgol

Y mae Llywodraethwyr yr Ysgol o'r farn y dylai'r holl ddisgyblion wisgo gwisg yr ysgol yn sgil yr ystyriaethau canlynol:

1. Y mae cydraddoldeb cymdeithasol yn hanfodol mewn ysgol gyfun. Bwriedir y wisg ysgol fel cyfrwng i ddileu gwahaniaethau cymdeithasol a all godi oherwydd ymddangosiad plentyn.
2. Y mae gwisg ysgol yn cysylltu'r disgybl â'i ysgol a dylai greu ymdeimlad o falchder ei fod yn perthyn i'r sefydliad arbennig hwnnw. **Disgwylir i ymarweddiad cyffredinol disgyblion adlewyrchu'r ethos hyn.**

Yr ydym yn deall bod safonau gwisg ymysg pobl ifanc wedi newid yn y blynyddoedd diwethaf, ond y mae safon sylfaenol o wisg yn rhywbeth y dylid ei hannog a dylai disgyblion lynu'n fanwl wrth hynny os yw gwisg ysgol i olygu rhywbeth.

1. Hoffwn bwysleisio'r ffaith nad yw'r disgyblion i wisgo unrhyw dop na siaced o fewn adeilad yr ysgol yn lle'r siwmper/crys chwys swyddogol. Dylid tynnu unrhyw got wrth ddod i fewn i'r **adeilad**.
2. Caniateir i'r disgyblion wisgo **un pâr** o stud/studs yn y **clustiau yn unig**. **Ni chaniateir styds trwyn nag unrhyw dyllau amlwg gwyneb na chorff.**
3. Disgwylir i ddisgyblion gydymffurfio â steil a hyd gwallt rhesymol ac o **liw naturiol**.
4. **Nid ydym yn cymeradwyo'r defnydd o golur yn yr ysgol ond o'i wisgo rhaid i'r defnydd ohono fod yn gynnil. Ni chaniateir ewinedd gel, ffug nag acrylig.**

### BLYNYDDOEDD 7 – 9

Trowsus neu sgert ddu (at y penglin) heb unrhyw addurn ee ffrils, taslau ayyb. Crys gwyn ffurfiol a thei, ynghyd â siwmper gwddf siâp V biws gyda llinell lwyd ar y V, gyda logo diwygiedig yr ysgol arni. Bydd angen cot ysgol dywyll yn ystod tywydd oer/gwlyb. Rydym yn gofyn i ddisgyblion wisgo **esgidiau du unlliw**. **Ni chaniateir i ddisgyblion wisgo menig o fewn adeilad yr ysgol.**

### BLYNYDDOEDD 10 - 11

Trowsus neu sgert ddu (at y penglin) heb unrhyw addurn ee ffrils, taslau ayyb. Crys gwyn ffurfiol a thei, ynghyd â siwmper gwddf siâp V llwyd gyda llinell biws ar y V, gyda logo diwygiedig yr ysgol arni. Bydd angen cot ysgol dywyll yn ystod tywydd oer/gwlyb. Rydym yn gofyn i ddisgyblion wisgo **esgidiau du unlliw**. **Ni chaniateir i ddisgyblion wisgo menig o fewn adeilad yr ysgol.**

### BLYNYDDOEDD 12 - 13

Disgwylir i'r myfyrwyr wisgo trowsus neu sgert **blaen** du (at y penglin), crys gwyn gyda siwmper gwddw v ddu gyda logo Blwyddyn 12/13 Ysgol David Hughes a thei swyddogol Ysgol David Hughes. Rydym yn gofyn i fyfyrwyr wisgo **esgidiau du unlliw**. Bydd angen cot ysgol dywyll yn ystod tywydd oer/gwlyb. Gofynnwn i fyfyrwyr gydymffurfio a'r wisg a sicrhau eu bod yn gosod esiampl dda i'r plant iau.

Gan ein bod yn teimlo ei bod hi'n bosibl cael nifer o amrywiadau oherwydd lliwiau'r ysgol dyma restr o'r pethau **na** fyddai'n dderbyniol. Efallai bydd angen ychwanegu at y rhestr ar sail profiad/ffasiwn.

- Jeans/Cords/Trowsus 'combat' neu 'cargo'/'leggings'/ Trowsusau tynn
- Siwmper/cardigan amryliw/streipiau
- Trac wisg (top na gwaelod)
- Capiau o unrhyw fath
- Hoodies na thopiau fleece
- Siacedi ee denim neu liw golau
- Esgidiau uchel nag esgidiau gyda logos neu farciau o unrhyw liw ag eithrio du
- Sgert fer
- Trainers ee converse/esgidiau 'dolly'/plimsolls

# Lunch Hour Arrangements

1. The welfare of the pupils necessitates that mid-day meals must be:
   - a school meal, or
   - a packed lunch which is consumed in the school building
2. Pupils in Years 7, 8 9, 10 and 11 are not permitted to leave the school premises during the lunch hour.
3. If a parent wishes to apply for free school dinners then they should apply throught their local authority's benefits department.

# School Uniform Policy

The Governors of the school consider that all pupils should wear school uniform, having regard to the following reasons for advocating the practice:

1. It is essential that there should be social equality within the structure of a comprehensive school. The school uniform is intended as a means of eliminating social distinctions which arise because of a child's appearance.
2. A school uniform identifies the pupils with the school and should inspire a sense of pride in belonging to that particular organisation. **We expect pupils' general appearance to reflect this ethos.**

It is fully appreciated that standards of dress amongst young people have changed in recent years, but a minimum standard of school uniform is desirable and pupils should adhere strictly to this basic requirement if a school uniform is to have any significance.

1. We would like to emphasise the fact that pupils should not wear any top or jacket within the school building as a replacement for their school sweatshirt. Their coat should be removed once they are inside the **building**.
2. Pupils are allowed to wear **one pair** of studs in their **ears only. Nose studs and visible face and body piercings are not allowed.**
3. Pupils are expected to conform to a respectable length and style of hair which should be of a **natural colour**.
4. **We do not endorse the use of makeup in school, however, if it is worn it should be sparingly applied.**
   **Gel, false or acrylic nails are not allowed.**

### YEARS 7 – 9

Plain black skirt (knee length) or trousers, eg, without frills, tassels etc. Formal white shirt and tie, a purple V-neck jumper with school logo and grey stripe in neckine. A 'dark' coloured coat will be necessary during wet and/or cold weather. We request that pupils wear **black shoes**. **Pupils are not permitted to wear gloves inside the school building.**

### YEARS 10 – 11

Plain black skirt (knee length) or trousers, eg, without frills, tassels etc. Formal white shirt and tie, a grey V-neck jumper with school logo and purple stripe in neckine. A 'dark' coloured coat will be necessary during wet and/or cold weather. We request that pupils wear **black shoes**. **Pupils are not permitted to wear gloves inside the school building.**

### YEARS 12 - 13

The students are asked to wear **plain** black trousers or skirts (knee length), white shirt, V-neck jumper with Year 12/13 Ysgol David Hughes logo and official Ysgol David Hughes tie. We request that students wear **black footwear**. A 'dark' coloured coat will be necessary during wet and/or cold weather. We ask students to conform to this dress code and it is important that they set a good example to younger pupils.

Due to the nature of the school uniform we sometimes find a number of variations. Here is a list of items, which are **not** acceptable. The list is not exhaustive and we reserve the right to extend the list based on experience/fashion.

- Jeans/Cords/Combat or cargo trousers/leggings/skintight trousers
- Jumpers/cardigans/multicoloured or striped tops
- Track suit (neither top nor bottom)
- Caps of any sort
- Hoodies or fleece tops
- Jackets eg denim, light coloured
- High-heeled shoes or shoes with logos any colouring apart from black
- Short skirts
- Trainers eg converse/dolly shoes/plimsolls

# Trefniadau Mynediad

### Mynediad i Flwyddyn 7 drwy gyswllt cynradd/uwchradd

Mae naw ysgol gynradd yn nalgylch yr ysgol a cheisir cadw mewn cysylltiad agos â hwy er mwyn hyrwyddo'r broses o drosglwyddo o ysgol gynradd i'r uwchradd. Cynhelir cyfarfod cyswllt bob hanner tymor a chadeirir y cyfarfodydd gan bob un o'r prifathrawon cynradd yn eu tro. Ceisir dilyn thema arbennig yn ystod y flwyddyn a hefyd dewisir un maes cwricwlaidd penodol ar gyfer cyfnewid rhwng yr ysgol uwchradd a'r ysgol gynradd.

Bob blwyddyn neilltuir un cyfarfod i adrodd yn ôl ar y disgyblion a drosglwyddwyd eisoes. Cyn y cyfarfod anfonir copi o asesiadau hanner tymor y disgyblion i'r ysgolion cynradd. Yn y cyfarfod bydd cynrychiolwyr yr ysgolion cynradd a thiwtoriaid Blwyddyn 7 yn trafod y disgyblion ac yn gweld a oes unrhyw broblemau.

Yn ystod tymor yr haf bydd Pennaeth yr Ysgol Iau a'r Pennaeth Addysg Arbennig yn ymweld â phob ysgol gynradd i siarad â'r disgyblion, dangos fideo ar fywyd yr ysgol, sgwrsio gyda'r athrawon a'r disgyblion. Trefnir i'r disgyblion ymweld â'r ysgol yn ôl eu dosbarthiadau cofrestru ar gyfer y flwyddyn ddilynol. Yn ystod yr ymweliad byddant yn dod i adnabod eu cyd-ddisgyblion yn y dosbarth cofrestru, yn cyfarfod â'r tiwtor dosbarth, yn dod i adnabod yr adeilad ac yn cael 'gwers brofi'. Bydd hefyd noson agored i rieni'r disgyblion yn yr ysgol.

### POLISI MYNEDIAD

| **Rhif mynediad yr ysgol i pob blwyddyn** | **216** |
|---|---|
| **Blwyddyn 7** - Nifer o geisiadau am fynediad Medi 2025 | **178** |
| Canran a ganiatawyd | **100%** |
| **Blwyddyn 8-11** - Nifer o geisiadau am fynediad Medi 2025 | **11** |
| Canran a ganiatawyd | **100%** |
| **Blwyddyn 12-13** - Nifer o geisiadau am fynediad Medi 2025 | **109** |
| Canran a ganiatawyd | **100%** |

Mae Corff Llywodraethu Ysgol David Hughes wedi mabwysiadu polisi'r Awdurdod Addysg ar gyfer Mynediad i'r Sector Uwchradd. Dyma rhai o'r prif bwyntiau.

### Amserlen Cyflwyno Cais am Fynediad i Ysgol Uwchradd ym Môn

1. Ar ddechrau mis Tachwedd bob blwyddyn cysylltir â rhieni plant fydd o'r oedran priodol i drosglwyddo i ysgol uwchradd yn y mis Medi canlynol yn eu gwahodd i gyflwyno cais am fynediad i'r ysgol y maent yn byw yn ei dalgylch neu i nodi eu dymuniad i gyflwyno cais am fynediad i ysgol uwchradd arall ym Môn. Ni ellir gorbwysleisio pwysigrwydd yr angen i gyflwyno cais am fynediad hyd yn oed ar ran disgyblion sydd yn byw yn nalgylch yr ysgol y maent am ei mynychu gan y bydd y plant y mae eu rhieni wedi mynegi dewis yn cael blaenoriaeth dros y rhai na fydd wedi mynegi dewis pan gynigir lle mewn ysgol.
2. Yn unol â gofynion y Côd Ymarfer sydd yn nodi y dylid rhoi o leiaf 6 wythnos i rieni gyflwyno cais am fynediad i ysgol bydd yn ofynnol cyflwyno cais am fynediad i ysgol uwchradd i bennaeth ysgol gynradd y plentyn cyn diwedd tymor yr Hydref neu i'r Swyddfa Addysg, Llangefni cyn diwrnod olaf mis Rhagfyr.
3. Cyn diwrnod olaf mis Ionawr bydd pob rhiant wedi cael gwybod os ydi eu plentyn wedi cael ei dderbyn i'r ysgol o'u dewis neu beidio. Bydd y rhieni nad yw eu plant wedi eu derbyn i'r ysgol o'u dewis yn cael gwahoddiad i ddewis ysgol arall os nad ydynt eisoes wedi nodi ail ddewis ac yn cael eu hysbysu o'u hawliau i apelio yn erbyn penderfyniad yr awdurdod derbyn.
4. Os bydd y rhieni yn penderfynu apelio yn erbyn penderfyniad yr awdurdod derbyn i wrthod mynediad i'r ysgol o'u dewis bydd yn ofynnol i'r apêl gael ei gyflwyno i'r Swyddfa Addysg o fewn 15 diwrnod gwaith o dderbyn yr hysbysiad fod eu cais am fynediad wedi ei wrthod.
5. Bydd yr Awdurdod yn cadw rhestr aros o geisiadau aflwyddiannus am fynediad ac os daw lle ar gael yn yr ysgol bydd plant yn cael eu dewis o'r rhestr aros i lenwi'r lleoedd ar sail y meini prawf gordanysgrifio. Ni roir blaenoriaeth yn ôl y dyddiad y rhoddwyd y cais ar y rhestr.
6. Mae'r awdurdod lleol wedi sefydlu panel annibynnol y gall rhieni apelio iddo yn erbyn penderfyniad i wrthod mynediad. Os yw'r panel yn dyfarnu o blaid y rhiant, rhwymir yr awdurdod derbyn gan y dyfarniad. Bydd y Panel Apêl yn cyfarfod o fewn 5 wythnos o dderbyn gwybodaeth fod rhiant yn penderfynu apelio a cheir dyfarniad y Panel o fewn 5 diwrnod gwaith o'r gwrandawiad.

# Admission Arrangements

### ADMISSION TO YEAR 7 VIA PRIMARY/SECONDARY LIAISON

There are nine primary schools in the school's catchment area and we try to keep in close contact with them in order to facilitate the process of transferring from primary to secondary school. A liaison meeting is held every half term and the meetings are chaired by each of the primary Head teachers in their turn. An attempt is made to follow special themes during the year and also one specific curricular field is chosen for study between the primary school and secondary school.

Each year one meeting is earmarked to report back about the pupils who have already transferred. Before the meeting a copy of the pupils' half term assessments are sent to the primary school. During the meeting primary schools representatives and Year 7 tutors will discuss the pupils to discover if there are any problems.

During the summer term the Head of the Lower School and the Head of Additional Learning Needs will visit each primary school to talk to the pupils, show a video on life in the school, and chat to the teachers and the pupils. Arrangements are made for the pupils to visit the school according to their registration classes for the following year. During the visit they will get to know their fellow registration class pupils, meet their class tutor, get to know the building and undertake a sample lesson. There is also an open evening in the school for the pupils' parents.

### ADMISSION POLICY

| **Standard school admission number for every year** | **216** |
|---|---|
| **Year 7** - Number of applications for admission in September 2025 | **178** |
| Percentage application granted | **100%** |
| **Year 8-11** - Number of applications for admission in September 2025 | **11** |
| Percentage application granted | **100%** |
| **Year 12-13** - Number of applications for admission in September 2025 | **109** |
| Percentage application granted | **100%** |

The Governing Body at Ysgol David Hughes have adopted the Education Department's Secondary Sector Admission Policy. Some of the main points are shown below:

**Timetable for Submitting Applications for Admissions to Secondary Schools in Anglesey**

1. Parents of children who will be of the age for transfer to secondary schools in the following September will be contacted at the beginning of November every year with information to enable them to make an application for admission to the secondary school in whose catchment area they reside or to indicate that they wish to apply for a place at another Anglesey secondary school. It is essential that pupils who wish to attend the catchment area school apply to do so since parents who have applied for admission to a particular school will be given priority over those who have not applied.
2. In accordance with the Code of Practice which stipulates that parents are to be given at least 6 weeks in which to submit their application for school admission applications for admission to secondary schools should be submitted to the pupil's primary school Head teacher before the end of the autumn term or to the Education Office, Llangefni by the last day of December.
3. Before the last day of January every parent which has applied for admission to secondary school will be informed as to whether their child has been admitted to the preferred school or not. Parents whose child has not been admitted to their preferred school will be invited to select and alternative school unless they have already done so and will be informed of their right to appeal against the admission authority's decision.
4. Parents wishing to appeal against the authority's decision to refuse admission to the preferred school will be required to submit the appeal to the Education Office within 15 working days of being informed of the decision to refuse admission.
5. The Local Education Authority will maintain a waiting list of applicants who have been refused admission to the preferred school but if a place does subsequently become available at the school, children would be admitted from the waiting list to take up any places that become available in line with the over-subscription criteria. Priority will not be based on the date the application was added to the list.
6. The local authority has established an independent panel to consider appeals against decisions to refuse admission to schools. If the panel finds for the parents such a decision is binding on the authority. The panel will meet within 5 weeks of the lodging of the appeal and parents will be informed of the decision of the panel within 5 working days after the panel has met to consider the appeal. The appeals panelwill be considering all appeals against the decision of admission authorities whether it is the LEA or the governing body.

## Meini Prawf Gordanysgrifio

1. Yn arferol derbynnir plant i Ysgolion Uwchradd yr Awdurdod unwaith y flwyddyn, yn y Medi yn dilyn eu pen-blwydd yn 11 oed. Yr unig eithriadau i fynediad yn y Medi yn dilyn pen-blwydd yn 11 oed fydd mewn achosion arbennig lle bydd yr Awdurdod o'r farn y byddai peidio trosglwyddo flwyddyn yn gynt neu beidio aros blwyddyn ychwanegol yn y sector cynradd yn niweidiol i gynnydd addysgol neu gymdeithasol y plentyn.
2. Mae Deddf 1998 yn cadarnhau y gofyn i sicrhau fod Rhif Safonol i bob ysgol. Mae gan bob ysgol hefyd Rif Mynediad ar gyfer pob grŵp oed perthnasol, hy, ar gyfer yr oed y derbynnir plant i'r ysgol yn arferol. Ni ellir pennu rhif mynediad yn is na'r Rhif Safonol ond gall fod yn uwch. Cyn pennu neu newid rhif mynediad unrhyw ysgol bydd yr Awdurdod derbyn yn ymgynghori â'r llywodraethwyr perthnasol a, drwy'r Fforwm Mynediad, gyda'r partneriaid. Unwaith y bydd Rhif Mynediad wedi ei bennu i ysgol bydd y rhif hwnnw yn cael ei barchu a dim ond dan amgylchiadau eithriadol y bydd disgyblion yn cael eu derbyn uwchlaw'r rhif mynediad.
3. Bydd pob awdurdod derbyn yn adolygu rhifau safonol yn barhaus ac os bydd yr awdurdod am amrywio'r rhif safonol bydd yn ymgynghori gan ddilyn canllawiau Cylchlythyr 13/95 y Swyddfa Gymreig "Y Cyflenwad o Leoedd mewn Ysgolion yng Nghymru".
4. Os bydd nifer y ceisiadau am fynediad a gyflwynir ar gyfer unrhyw ysgol yn is na'r Rhif Mynediad bydd yr Awdurdod yn caniatáu mynediad i bob disgybl fydd wedi gwneud cais.
5. Os bydd nifer y ceisiadau am fynediad i unrhyw ysgol yn uwch na'r Rhif Mynediad yr ysgol bydd yr Awdurdod yn dewis pa ddisgyblion i'w derbyn hyd at y Rhif Mynediad yn unol â'r meini prawf a ganlyn pan fydd yr Awdurdod yn fodlon fod y rhesymau a roddir gan y rhieni dros fynegi eu dymuniad i'w plentyn gael ei addysg yn yr ysgol dan sylw yn cyd-fynd ag un o'r meini prawf isod sydd wedi eu rhestru yn nhrefn blaenoriaeth.
   - Disgyblion sydd ar Ddatganiad o Anghenion Dysgu Ychwanegol lle mae'r datganiad yn enwi'r ysgol dan sylw.
   - Disgyblion yr argymhellir eu derbyn i'r ysgol dan sylw oherwydd anghenion meddygol neu seicolegol. Bydd yn rhaid i dderbyniadau o'r fath fod wedi eu cadarnhau gan gynghorwyr proffesiynol yr Awdurdod megis y Prif Seicolegydd Addysgol neu'r Prif Swyddog Meddygol.
   - Plant sy'n byw o fewn dalgylch diffiniedig yr ysgol.
   - Plant â brodyr neu chwiorydd eisoes yn yr ysgol.
   - Plant nad yw eu cartref o fewn dalgylch yr ysgol ond a fynychodd ysgol gynradd o fewn dalgylch yr ysgol uwchradd.

   Pan fydd angen dewis rhwng mwy nag un ymgeisydd o fewn unrhyw un o'r meini prawf uchod rhoddir blaenoriaeth i'r ymgeiswyr sydd â'u cartref agosaf at yr ysgol.

### Trosglwyddo o fewn y Sector Uwchradd
Dylai rhieni sy'n dymuno trosglwyddo eu plentyn o un ysgol uwchradd i un arall (a heb fod yn newid cyfeiriad) lenwi ffurflen dewis rhieni gan nodi rhesymau am y cais a'i chyflwyno i'r Awdurdod Addysg ond nid cyn trafod yn fanwl gyda'r ddau/ddwy Bennaeth perthnasol.

### Disgyblion All-Sirol
Dylai ceisiadau am fynediad i ysgol sy'n cael ei chynnal gan yr Awdurdod mewn perthynas â phlant sy'n byw y tu allan i Fôn gael eu cyflwyno i'r Awdurdod.

### Mynediad i flynyddoedd eraill
Gofynnir i rieni gysylltu â'r ysgol i wneud trefniadau i drafod y mater gyda'r Pennaeth.

### Trefn mynediad i ddisgyblion gydag anabledd
Lle y bo modd gwneir trefniadau arbennig ar gyfer disgyblion ag anabledd corfforol. Gellir gweld copi llawn o'r Polisi Cynllun Cydraddoldeb i Bobol Anabl drwy gysylltu â'r ysgol.

## Over-Subscription Criteria

1. Pupils are usually admitted to the Authority's secondary schools annually in the September following the 11th birthday. The only exceptions to admissions in the September following the 11th birthday will be in special cases where the Authority is of the view that a pupil's social and/or educational development would be severely hindered by not transferring to secondary school 12 months earlier than the normal admission age or by not remaining in the primary school for 12 months later than the normal transfer age.
2. The 1998 Act confirms the requirement to have a Standard Number for every school. Every school also has an Admission Number (Published Admission Number or PAN) in respect of the age at which pupils are normally admitted. The admission number may not be lower than the standard number but it may be set at a higher rate than the standard number. Before determining or changing the admission number of a school the admission authority will consult the relevant governing body and, by means of the Admissions Forum, the partners. Once an admission number has been set the admission authority must respect that number. Pupils will not be admitted above the published number unless exceptional circumstances apply.
3. Admission authorities are required to keep standard number under review and if it is proposed to change the number this will be the subject to consultation in line with guidelines in Welsh Office Circular 13/95 "The Supply of School Places in Wales".
4. If the number of applications for admissions to any school is less than the admission number the authority will admit all pupils who have applied for admission.
5. If the number of applications for admissions to any school is more than the admission number of that school pupils will be admitted up to the admission number in accordance with the following criteria, the Authority being satisfied that the reasons given by the parents in expressing their preference to educate their child at the school satisfies one of the following criteria which are listed in order of priority.
   - Pupils who have a Statement of Additional Learning Needs which names the particular school.
   - Pupils recommended for placement at the school with regard to their medical or psychological needs. Such placements must be confirmed by the LEA's professional advisers, e.g., chief Educational Psychologist or Senior Medical Officer of Health.
   - Pupils who live within the defined catchment area of the school.
   - Pupils who have a brother or sister already attending the school.
   - Pupils who do not live within the school's catchment area but who have attended primary school which is in the catchment area of the school.

   In a tie-break situation within any of the criteria the Authority will give priority to pupils whose home is nearest the school.

### Transfer within the Secondary Sector
Parents of children who wish to transfer from one secondary school to another (in circumstances other than a change of address) should fill in a parental preference form indicating the reason(s) for the transfer and submit it to the Authority, but not before discussing the transfer with the Head teachers concerned.

### Out of County pupils
Applications for admission to a school maintained by the Authority in respect of pupils who live outside the administrative boundary of the Authority should be presented to the Anglesey Local Education Authority.

### ADMISSION TO OTHER YEARS
Parents are requested to contact the school to make arrangements to discuss the matter with the Head teacher.

### ADMISSION ARRANGMENTS FOR PUPILS WITH DISABILITIES
Where possible special arrangements are made for pupils with physical disabilities. A full copy of the Disability Equality Scheme Policy can be seen by contacting the school.

# Mynediad i Wybodaeth

Bydd yr Ysgrifennydd Gwladol yn darparu copïau o offerynnau statudol a chylchlythyrau ym mhob ysgol a gall rhieni drefnu i ymweld â'r ysgol er mwyn cael golwg ar y dogfennau.

Mae casgliad llawn o'r datganiadau a'r polisïau a wnaed gan y Corff Llywodraethol a'r Awdurdod Addysg Leol ar gael i'w gweld yn yr ysgol fel y mae cynlluniau gwaith, meysydd llafur ac unrhyw adroddiadau gan Arolygwyr Estyn ar yr ysgol. Dylid gwneud apwyntiad i ymweld â'r ysgol er mwyn cael gweld yr holl wybodaeth sydd ar gael.

# Meddygol

Disgwylir i rieni neu warcheidwad hysbysu'r ysgol am unrhyw gyflwr meddygol neu glinigol a allai effeithio ar raglen disgybl. Mae nifer o staff yn gymwysedig mewn cymorth cyntaf ac mae trefniadau mewn lle. Os yw rhiant yn dymuno i'w blentyn gael moddion mae ffurflen benodol ar gael yn y dderbynfa i roi caniatâd. **Noder fod yr Ysgol yn gweithredu ar fod yn Ysgol ddi-gnau.**

# Nyrs Ysgol

Mae'r ysgol yn cydweithio gyda'r gwasanaeth iechyd ac yn gallu cyfeirio disgyblion at y nyrs ysgol am gefnogaeth materion meddygol.

# Iechyd a Diogelwch

Rhoddir cryn bwyslais ar faterion iechyd a diogelwch yn Ysgol David Hughes. Sefydlwyd cyfundrefn o fathodynnau arbennig ar gyfer pob ymwelydd â'r ysgol, yn ogystal â sicrhau bod gwybodaeth berthnasol wrth ymyl pob mynedfa i'r ysgol. Buddsoddwyd mewn offer diogelwch, yn cynnwys system drysau allanol newydd, goleuadau newydd, system larwm o fewn yr adeilad a rhwydwaith o gamerâu diogelwch (CCTV). Cymerir pob cyfle i godi ymwybyddiaeth staff a'r disgyblion o'r angen i fod yn wyliadwrus ac adrodd i'r Tîm Rheoli yn syth os cyfyd unrhyw broblem.

Mae gan y disgyblion gyfrifoldeb i sicrhau eu bod yn symud o gwmpas yr adeilad yn bwyllog ac yn ddiogel. Mae cadw at reolau'r ysgol yn bwysig os am osgoi damwain, er enghraifft, mewn labordy, gweithdy. Rhaid bod yn wyliadwrus wrth ddefnyddio'r groesfan ar y lôn fawr tu allan i'r ysgol. Mae'r ysgol hefyd yn cadw mewn cysylltiad agos gyda'r heddlu ac asiantaethau perthnasol eraill. Cyfrifoldeb y disgybl yw unrhyw eiddo personol. Dylid marcio popeth (dillad, bagiau ayyb) yn glir er mwyn gallu ei adnabod. Ni ddylid gadael unrhyw beth gwerthfawr megis oriawr neu arian yn yr ystafelloedd cotiau, yr ystafelloedd newid, ayyb, ond dylid eu rhoi i'r athro priodol oni all y disgybl eu diogelu. Disgwylir i unrhyw un a geir yn euog o niweidio eiddo'r ysgol wneud iawn am y niwed. Ni ellir digolledu unrhyw un am eiddo a gollir neu a ddifrodir yn yr ysgol.

### Cyfleusterau Toiled

Mae'r ysgol wedi buddsoddi'n sylweddol yn ystod y blynyddoedd diwethaf ym mhob bloc toiled. Mae'r toiledau yma yn gwbl breifat. Cedwir y toiledau yn lân gyda chyflenwad digonol o sebon a phapur yn ddyddiol drwy gytundeb glanhau Cyngor Sir Ynys Môn.

# Access to Information

The Secretary of State will provide copies of statutory instruments and circulars in each school and parents may arrange to visit the school in order to gain free access to the documents.

A full collection of the statements and policies made by the Governing Body and the Local Education Authority is available to be inspected at the school as are work schemes, syllabuses and any HMI reports on the school. An appointment should be made to visit the school to gain access to all the available information.

# Medical

Parents/guardians are expected to inform the school of any medical or clinical condition which may affect a pupil's programme. A number of staff are qualified in first aid and arrangements are in place. If a parent wishes their child to have medicines a specific form is available at reception to give consent. **Please note that the School operates on being a Nut-free School**

# School Nurse

The school works with the health service and can make pupil referrals to the school nurse for support for medical issues.

# Health and Safety

Considerable importance is attached to health and safety issues in Ysgol David Hughes. A system of visitor badges has been established for all visitors to the school as well as the provision of relevant information near every entrance to the school. Investment has been made in safety equipment, including a new external doors system, new lighting, security alarm system within the building and a network of CCTV cameras. Considerable efforts have been made to raise the awareness of both staff and pupils of the need to be vigilant and to report any potential problem immediately to the Management Team.

Pupils have a responsibility to ensure that they move around the building carefully and safely. Keeping to school rules is important if accidents are to be avoided, eg, in the workshops, laboratories. Great care needs to be taken when using the crossing on the main road outside of school. The school also maintains close contact with the police and other relevant agencies. All private property is the responsibility of the pupil concerned. All items (clothing, satchels, etc) should be clearly marked for identification purposes. Valuables such as watches and cash should not be left in cloakrooms, changing rooms, etc. but should be handed to the member of staff concerned if the pupil cannot safeguard the property. Any pupil who is guilty of damaging school property will be expected to make recompense for the damage. No responsibility can be taken for any loss or damage to any pupil's possessions.

**Toilet Conveniences**

The school has invested substantially over recent years in all of our toilet blocks. These toilets are totally private. The toilets are kept clean with sufficient supply of soap and paper daily through the Isle of Anglesey County Council's cleaning contract.

# Trefniadau Argyfwng – Cau'r Ysgol

Bydd y trefniadau'n ddibynnol ar natur yr argyfwng ond byddwn bob amser yn rhoi blaenoriaeth i sicrhau diogelwch y disgyblion a staff yr ysgol.

Dyma'r camau a fydd yn cael eu cymryd o fewn yr ysgol:-

1. Bwriedir anfon neges destun i chwi ac anfonwn nodyn ar trydar/face book os bydd angen cau mewn argyfwng.
2. Cesglir y disgyblion at ei gilydd mewn grwpiau blwyddyn mewn gwahanol ganolfannau yn yr ysgol.
3. Trefnir bod y cwmnïau bws yn dod i'r ysgol i 'nôl y disgyblion.
4. Hysbysir y gorsafoedd radio canlynol bod angen cau'r ysgol:-
   BBC Radio Cymru, Radio Wales, Môn FM a Capital FM.
5. Cynghorir rhieni hefyd i edrych ar wefan yr ysgol am unrhyw wybodaeth ynglŷn â chau'r ysgol - www.ysgoldavidhughes.org.
6. Cyhoeddir i'r disgyblion nad ydynt i adael tir yr ysgol (cerdded adref na dal bws) oni bai bod ganddynt fynediad i'w cartrefi neu dŷ perthynas/ffrind agos (yn unol â'r drefn deuluol).
7. Gelwir y disgyblion i'r bysiau, fesul bws.
8. Defnyddir bws mini'r ysgol i gludo rhai disgyblion gartref os bydd angen.

Anaml y bydd sefyllfaoedd o'r fath yn codi, ac rydym yn gwerthfawrogi eich cefnogaeth barod pan fydd angen gwneud penderfyniad brys. Gallwn eich sicrhau ein bod bob amser yn rhoi blaenoriaeth i ddiogelwch y disgyblion.

**Hoffwn dynnu eich sylw yn arbennig at bwynt 5 uchod, sef, yr angen i ddisgyblion fod yn glir ynglŷn â'r trefniadau 'adref' mewn sefyllfa o argyfwng.**

**Gofynnir i chi sicrhau bod eich plentyn yn ymwybodol o'r trefniadau y dymunwch iddynt eu dilyn mewn argyfwng.**

**Pwysleisiwn eto na ddylai disgyblion adael tir yr ysgol os nad oes mynediad i'w cartrefi neu gartref perthynas/cyfaill, wedi ei drefnu gennych chi o flaen llaw. Byddwn yn sicrhau bod y disgyblion yn ddiogel yn yr ysgol hyd at yr amser y byddwch wedi gwneud trefniadau iddynt fynd adref.**

# Cerbydau a Bysiau ar dir yr Ysgol

Gan fod yna gymaint o drafnidiaeth ar dir yr ysgol yn ystod y dydd, mae diogelwch pawb sydd ar safle'r ysgol yn fater o flaenoriaeth, yn enwedig ar ddechrau a diwedd y dydd. Bydd yr ysgol yn gwneud y disgyblion yn ymwybodol o'r peryglon hyn drwy wersi tiwtorial/gwasanaethau/llythyrau i rieni ayyb. Mae angen i bawb sydd yn defnyddio eu ceir gymryd gofal pan fyddant ar dir yr ysgol a bod yn ymwybodol o nifer a natur y disgyblion ar y safle.

Er mwyn diogelwch pawb, rydym yn awyddus i gadw i'r drefn isod pan fydd cerbydau rhieni, staff ac ymwelwyr, yn ogystal â bysiau, yn ymweld â'r ysgol:

### Cerbydau Rhieni:

Os yw rhieni yn cludo disgyblion i'r ysgol yn eu cerbydau rhwng **8.00 a 8.45** y bore gofynnir iddynt ddefnyddio'r brif **slipffordd** sydd wrth giât yr ysgol ar gyfer gollwng disgyblion, a dylent barcio yn ofalus yn y maes parcio ar gyfer ymwelwyr ac nid ar y slipffordd.

Os yw rhieni yn dod â'u ceir ar dir yr ysgol ar ôl **9.00yb a chyn 2.30yp** gallant barcio yn **ardal parcio ymwelwyr** fel mae lle yn caniatáu. Dylent gymryd pob gofal pan yn gyrru ar dir yr ysgol a hefyd dylent gyflwyno eu hunain yn Dderbynfa'r ysgol er mwyn cael bathodyn ymwelydd. Os yw'r ymweliad **ar ôl 2.30yp a chyn 3.45yp** mae'n rhaid defnyddio'r **ardal parcio ymwelwyr** gan fod y bysiau yn cyrraedd tir yr ysgol. **Gofynnir i rieni gymryd gofal arbennig yn ystod amser egwyl (10.50yb-11.10yb/cinio (12.50yp-1.40yp).**

**Mae'n bwysig nad yw ceir rhieni yn amharu ar y bysiau sy'n dod i nôl y plant drwy barcio wrth brif fynedfa'r ysgol.**

# Arrangements in an Emergency-
# Closing the School

The arrangements will depend on the nature of the emergency but the safety of the pupils and school staff will be our priority at all times.

These are the steps that will be taken within the school:

1. We intend to send you a text message and we will inform you on twitter/face bk if the school closes in an emergency.
2. Pupils will be gathered together in year groups at different assembly points in the school.
3. We will arrange for the buses to come to the school to collect the pupils.
4. The following radio stations will be notified that the school is to close:-
   BBC Radio Cymru, Radio Wales, Môn FM and Capital FM.
5. Parents are also advised to check the school website for any information regarding closing the school – www.ysgoldavidhughes.org.
6. The pupils will be informed that they are not to leave the school (walking or on a bus) unless they have entry to their homes or a close relative/friend's home (according to the family's arrangements).
7. The pupils will be called to the buses, one bus at a time.
8. The school minibus will be used to transport some pupils home if necessary.

This type of situation is very rare, and we appreciate your support when decisions have to be made quickly in an emergency. We can assure you that the pupils' safety is our priority at all times.

**We would like to draw your attention, in particular, to point 5 above, which emphasizes the need for pupils to be clear about the arrangements 'at home' in an emergency situation.**

**Please ensure that your child is fully aware of the procedures that you wish them to follow in such an emergency.**

**We emphasize once again that pupils should not leave the school site if they do not have entry to their homes or a relative/close friend's home, as arranged by you beforehand. Alternatively, we will ensure that the pupils are safe at the school until you have made arrangements for them to go home**.

# Vehicles and Buses on the School Grounds

Because there is so much traffic on the school grounds during the day, the safety of everyone on the school site is a matter of priority, especially at the start and the end of the day. The school will make the pupils aware of these dangers through tutorial lessons/assembly/letters to parents, etc. Everyone who uses their car must take great care when on the school site and must be aware of the unpredictable nature of the pupils on the site.

For the safety of all, we are eager to implement the procedures below when parents, staff and visitors' vehicles, as well as buses, visit the school:

**Parents' Vehicles:**

If parents transport their children to the school between **8.00 and 8.45 in the morning,** we ask that they use the main **slip road** that is by the school gate for dropping off pupils, and that they park sensibly and safely in the visitors parking area, and not on the slip road.

If parents bring their cars on to the school site **after 9.00 and before 2.30pm,** they can park at the **visitor parking area** if space allows. They should always take the utmost care when driving on school premises and should always present themselves in the school's reception in order for them to receive a visitor's security badge. If the visit is **after 2.30pm and before 3.45pm** they must use the **visitor parking area** because the school buses will be arriving on the school yard. **We ask parents to take extra care during breaktime (10.50am -11.10am) /lunchtime (12.50pm-1.40pm).**

**It is most important that parents' cars do not affect the access for buses coming to take children home by not parking in the approach to the main school entrance.**

Argymhellir bod rhieni sy'n codi eu plant ar ôl ysgol yn y prynhawn yn gwneud hynny **erbyn 3.20pm** gan ddilyn llwybr o amgylch adeiladau'r ysgol mewn system un ffordd.

Dylai rhieni bob amser gymryd sylw o gyngor/cyfarwyddyd y staff sydd ar ddyletswydd ar ddiwedd sesiwn y prynhawn.

### Cerbydau Ymwelwyr:

Argymhellir bod ymwelwyr/contractwyr yn defnyddio maes parcio yn y cefn rhwng **9.00am a 2.30pm.** Bydd angen i'r holl ymwelwyr/contractwyr sydd yn ymweld â'r ysgol arwyddo i mewn yn Dderbynfa'r ysgol a rhoi gwybodaeth am natur eu hymweliad/busnes. Dylai unrhyw ymwelwr sydd angen parcio mewn lle heblaw iard yr ysgol ee ar gyfer llwytho/dadlwytho, gael caniatâd gan y dderbynfa.

### Cerbydau Staff:

Er mwyn diogelwch, ni ddylai unrhyw aelod o staff adael tir yr ysgol hyd nes bydd y bws olaf wedi gadael iard yr ysgol. Mae mannau parcio staff i'w gweld ar y map amgaeedig. Bydd angen i staff gymryd pob gofal wrth barcio, a gyrru i mewn ac allan o dir yr ysgol.

## Cerbydau Myfyrwyr Blynyddoedd 13 yn unig

### Cerbydau Myfyrwyr:

Rhaid i fyfyrwyr wneud cais ysgrifenedig am ganiatâd i barcio ar dir yr ysgol.
Rhoddir cerdyn 'Hawl Parcio' (Parking Permit) a dylid arddangos y cerdyn yn ffenest flaen y car.
Bydd gan yr ysgol hawl i wrthod caniatâd neu i ddiddymu caniatâd os yw myfyrwyr yn gyrru mewn ffordd anghyfrifol ar dir yr ysgol.

### Cerbydau ar Safle'r Ysgol – Rheolau

Caniateir i fyfyrwyr Blwyddyn 13 barcio eu ceir/cerbydau yn y maes parcio wrth y Ganolfan Hamdden dan yr amodau isod:

1. Mae'n rhaid cofrestru rhif y cerbyd ac enw'r gyrrwr gyda'r ysgol os am barcio ar dir yr ysgol. Er mwyn sicrhau tocyn parcio bydd angen dangos trwydded yrru gyfredol, prawf o yswiriant, a Thystysgrif Cofrestru Cerbyd (V5C).
2. Gellir parcio yn y maes parcio wrth y Ganolfan Hamdden, yn unig, rhwng 8.00am a 5.00pm.
3. **Ni chaniateir i unrhyw gerbyd symud o'r maes parcio rhwng 8.45 a 3.30**, ag eithro cyfnodau "cytundeb" cytunedig neu mewn argyfwng. Bydd yn rhaid trafod eithriadau i'r rheol hwn gyda'r Pennaeth neu Bennaeth Blwyddyn.
4. Ni chaniateir gadael tir yr ysgol mewn cerbyd:-
    - yn ystod amser egwyl,
    - yn ystod amser cinio,
    - pan fydd y bysiau ar dir yr ysgol.
5. Mae'r ysgol yn safle o risg uchel ac mae angen gyrru yn araf ac yn ofalus iawn ar y safle.

### Bysiau:

Mae cyfran helaeth o'r disgyblion yn cael eu cludo i'r ysgol gan fysiau a ddarperir gan yr Awdurdod Addysg. Yr Awdurdod, nid yr ysgol, sydd yn trefnu amseroedd a llwybrau'r bysiau. Fodd bynnag, pan fyddant ar iard yr ysgol dylai pob gyrrwr wrando a dilyn y cyngor/cyfarwyddyd a roddir gan staff yr ysgol. Bydd rhai aelodau staff ar ddyletswydd ar ddiwedd y diwrnod ysgol er mwyn sicrhau diogelwch. Dylid rhybuddio'r disgyblion i eistedd i lawr drwy gydol y siwrnai a pheidio ag ysmygu/fêpio ar y bysiau ysgol. Dylent ymddwyn yn gyfrifol er lles a diogelwch pawb.

Trefnir cludiant ar gyfer pob disgybl sydd yn byw o fewn dalgylch yr ysgol (heblaw'r disgyblion hynny sydd o fewn pellter cerdded). Os yw disgybl yn byw o fewn tair milltir i'r ysgol mae'n orfodol iddynt dalu am drafnidiaeth. Os yw disgybl yn byw tu allan i'r tair milltir, ac o fewn y dalgylch, byddent yn derbyn tocyn bws. Nid oes trefn cludiant i ddisgyblion sydd yn byw tu allan i ddalgylch yr ysgol.
Mae angen i ddisgyblion Blwyddyn 12 a 13 sy'n dymuno teithio ar gludiant ysgol wneud cais am docyn teithio. Cost y tocyn i'w gadarnhau. Mae gan ddisgyblion Blynyddoedd 7 -11 sy'n byw llai na thair milltir o'r ysgol hefyd hawl i wneud cais am docyn teithio, cost y tocyn I'w gadarnhau.

It is recommended that parents who pick up their children after school in the afternoon do so **by 3.20pm,** and use the route around the school buildings in a one-way system.

Parents should always pay attention to the advice/directions of the staff that are on duty at the end of the afternoon session.

**Visitors' Vehicles:**
It is recommended that visitors/contractors use the car park at rear between **9.00am and 2.30pm.** All visitors/contractors who visit the school must sign in at the school's reception and provide information about the nature of their visit/business. Any visitor who needs to park somewhere other than the school yard, e.g. for loading/unloading, must get permission from the reception.

**Staff Vehicles:**
For safety reasons, no member of staff should leave the school site until the last bus has left the school yard. Staff parking areas can be seen on the enclosed map. All members of staff will need to take great care when parking as well as entering and leaving the school grounds.

## Student Vehicles Year 13 only

**Student Vehicles:**
Students must make a written application to park on the school grounds.
A 'Parking Permit' will be given and this should be visible on the car windscreen.
The school has the right to refuse permission or to cancel permission if a student drives in an inappropriate manner on the school grounds.

**Vehicles on the School Grounds – Rules**
Only Year 13 students will be permitted to park their vehicles in the Sports Centre Car Park provided the following conditions are met:-

1. The vehicle and designated driver must be registered with the school if parking is to be permitted. In order to ensure a parking permit the following documents will need to be seen – current driving licence, proof of insurance and a Vehicle Registration Certificate (V5C).
2. Vehicles can be parked in the Sports Centre Car Park, only, between 8.00am and 5.00pm.
3. **No vehicle is to be moved from the car park between 8.45am and 3.30pm**. The only exceptions will be agreed "contract" periods or during an emergency. Any exceptions to this rule must be discussed with the Head teacher or Head of Year.
4. No vehicle is to leave the school grounds:-
    - during break time,
    - during lunch time,
    - when buses are on the school site.
5. The school site is a high risk area and vehicles must be driven slowly and very carefully whilst on site.

**Buses:**
The vast majority of pupils are transported to school on buses provided by the Authority. It is the Authority, not the school, that arranges bus times and routes. However, when they are on the school yard, every driver must listen to, and follow advice/directions given by the school's staff. Some staff members will be on duty at the end of the school day in order to ensure safety. For the safety of all passengers the pupils must be warned to sit down at all times, not to smoke/vape, and to behave in an appropriate manner.

Transport is provided for all pupils who live within the school's catchment area (other than those pupils who live within walking distance). If a pupil lives within three miles of the school they will have to pay for transport. If a pupil lives outside the three miles, but in the catchment area, a bus pass will be issued. There are no formal transport arrangements for pupils living outside the catchment area.

Year 12 and 13 students who wish to travel on school transport are required to apply for a bus pass. The bus pass costs to be confirmed. Year 7 -11 pupils who live less than 3 miles from the school are also entitled to apply for a bus pass. The bus pass costs to be confirmed.

Mae ffurflenni cais i'w cael o'r adain Priffyrdd a Thrafnidiaeth, Cyngor Sir Ynys Môn, Swyddfeydd y Cyngor, Llangefni, LL77 7TW

**Disgwylir safon uchel o ymddygiad ar y bysiau: gall disgyblion sy'n ymddwyn yn wael gael eu gwahardd rhag defnyddio cludiant yr Awdurdod Addysg.** Gofynnir i'r bysiau gyrraedd yr ysgol **o leiaf 10 munud** cyn diwedd sesiwn y prynhawn a bod yn eu lle i dderbyn disgyblion pan fydd y gloch yn canu am **3.20 yp.** Ni ddylai unrhyw fws symud oddi ar dir yr ysgol hyd nes bydd pob disgybl yn ddiogel ar fws. Os cyfyd unrhyw broblem dylid cysylltu gyda Swyddog Iechyd a Diogelwch yr ysgol yn y lle cyntaf.

### ROTA DYLETSWYDD BWS

Ar ddiwedd sesiwn y prynhawn bydd rhai aelodau staff ar ddyletswydd er mwyn sicrhau diogelwch wrth fynd ar y bysiau ac oddi ar safle'r ysgol. (gweler Atodiad). Mae'r bysiau ysgol ar gontract i'r Awdurdod Lleol ac felly'n dod o dan eu rheolaeth. Fodd bynnag, pan fyddant ar libart yr ysgol dylai pob gyrrwr wrando a dilyn y cyngor/cyfarwyddyd a roddir gan staff yr ysgol. Dylid rhybuddio'r disgyblion i eistedd i lawr bob amser a pheidio ag ysmygu/fêpio ar y bysiau ysgol ac i ymddwyn mewn modd rhesymol.

Dylai'r bysiau ysgol gyrraedd y safle **10 munud** cyn diwedd sesiwn y prynhawn a bod yn eu lle yn barod i dderbyn disgyblion gynted ag y gollyngir y disgyblion allan. Dylid rhoi gwybod am unrhyw broblem yn ymwneud â chludiant i'r ysgol i'r Swyddog Iechyd a Diogelwch yn y lle cyntaf, a bydd yntau, os bydd angen, yn cysylltu ag aelod o'r Awdurdod Lleol sy'n gyfrifol am gludiant ysgol.

# Trefniant Ymweld

Dylai rhieni sy'n dymuno ymweld â'r ysgol i drafod addysg eu plant wneud trefniadau ymlaen llaw gyda'r Pennaeth/Pennaeth Blwyddyn un ai ar y ffôn neu drwy lythyr. **Dylai pob ymwelydd fynd yn syth i dderbynfa'r ysgol.**

# Datblygiad Ysbrydol

Nid yw'r ysgol yn dal cysylltiad ag unrhyw enwad crefyddol penodol a darperir addysg grefyddol yn unol â'r maes llafur cydnabyddedig. Os yw rhiant yn gwrthwynebu ar sail gydwybodol i'w blentyn dderbyn gwersi addysg grefyddol neu fynychu'r gwasanaeth boreol, gellir gwneud trefniadau addas ar ei gyfer. Mae'r dewis yma hefyd gan fyfyriwr Blwyddyn 12/13.

Cynhelir gwasanaeth i un neu ddwy o flynyddoedd yn ddyddiol. Pan nad oes gwasanaeth i'r disgyblion trafodir "Myfyrdod" yn eu dosbarth cofrestru.

Yng Nghyfnod Allweddol 3 bydd pob disgybl yn dilyn cwrs Astudiaethau Crefyddol am un neu ddwy wers yr wythnos. Yng Nghyfnod Allweddol 4 bydd pob disgybl yn derbyn Addysg Grefyddol drwy ddilyn naill ai cwrs TGAU Astudiaethau Crefyddol neu fodiwlau ABACH.

Application forms are available from the Highways and Transportation Department, Isle of Anglesey County Council, Council Offices, Llangefni, LL77 7TW.

**A high standard of behaviour is expected on the buses: pupils who behave badly can be banned from using the Education Authority's transport.** We ask that buses arrive at the school **at least 10 minutes** before the end of the afternoon session and be in place to receive pupils when the bell rings at **3.20pm.** No bus should leave the school's premises until every pupil is safely on a bus. If any problems arise, you should in the first instance contact the school's Health and Safety Officer.

**BUS DUTY ROTA**
At the end of the afternoon session some staff members will be on duty in order to ensure safe passage onto the buses and off the school site (see Appendix). School buses are under contract to the Local Authority and as such come under their control. However, when on the school site all drivers should listen and adhere to advice / direction given by school staff. Pupils should be warned to sit down at all times, not to smoke/vape on school buses and behave in a reasonable manner.

School buses should arrive on the site **10 minutes** before the end of the afternoon session and be in place ready to receive pupils as soon as the pupils are dismissed. Any problems with regard to school transport should be reported to the Health and Safety Officer in the first instance, who if necessary, will liaise with the member of the Local Authority responsible for school transport.

# Visiting Arrangements

Parents who wish to visit the school should make prior arrangements with the Headteacher/Head of Year by telephone or letter. **All visitors should report to the school reception on arrival.**

# Spiritual Development

The school has no religious affiliation and religious education is provided in accordance with the agreed syllabus. If a parent or guardian objects to the child receiving religious education or attending morning assembly on the grounds of conscience, suitable arrangements can be made. Year 12/13 students also have this choice.

A service is held daily for one or two specific school year groups. When there is no service for the pupils a "Reflection" is discussed in their registration class.

In Key Stage 3 every pupil will follow a Religious Studies course for one or two lessons a week. In Key Stage 4 every pupil will receive Religious Education by following either the GCSE Religious Studies course or PSE modules.

# Addysg Gorfforol

**GOFYNION GWISG ADDYSG GORFFOROL**

- Crys T piws efo logo'r ysgol
- Crys llewys hir (du a piws efo'r logo) y gellir ei wrthdroi er mwyn gweithgarddau yn yr awyr agored.
- Trowsus byr du neu leggings du (efo neu heb logo)
- Sanau du (efo neu heb logo)
- Esgidiau pêl droed
- Esgidiau chwaraeon

**Nodau**

Mae gwaith yr adran yn seiliedig ar ddau nod sylfaenol wedi eu canoli ar ryddhau potensial yr unigolyn ar bob lefel:

- Datblygu sgiliau bywyd heini
- Datblygiad personol a chymdeithasol

**Amcanion**

Mae'r nodau hyn yn cael eu his-rannu i'r amcanion a ganlyn:

1. Annog a datblygu sgil mewn amrywiaeth o weithgareddau creadigol ac mewn chwaraeon.
2. Darparu amrediad o weithgareddau i ddisgyblion a'u helpu i ddatblygu stôr o brofiadau symud.
3. Cael y disgyblion i gymryd rhan mewn proses barhaus o gynllunio ac arfarnu gweithgareddau.
4. Cynyddu i'r eithaf dwf a datblygiad pob disgybl yn ôl eu gallu.
5. Cynyddu awydd mewn disgyblion i barhau i gymryd rhan weithredol mewn gweithgareddau corfforol sy'n hybu iechyd nes byddant yn oedolion.
6. Datblygu ymwybyddiaeth o eraill, parch tuag at eraill, cydweithrediad a safonau ymddygiad ac ymarweddiad boddhaol.
7. Datblygu agwedd meddwl gadarnhaol tuag at iechyd a ffitrwydd.
8. Darparu amrediad o gyfleodd i ddisgyblion ddysgu mewn amrywiaeth o ffyrdd drwy fabwysiadu amrediad o arddulliau dysgu.

**Cyflawnir yr amcanion hyn mewn pedair ffordd:**

1. Cwricwlwm CYTBWYS yn cynnwys:
   - Chwaraeon
   - Iechyd a Lles
   - Gwethgareddau unigol
   - Gweithgareddau antur ac awyr agored
2. Rhaglen allgyrsiol EANG yn cynnwys:
   - Timau Arbenigol
   - Gweithgareddau hamdden
   - Cystadlaethau rhyng-ddosbarth
3. Defnyddio DULLIAU ADDYSGU addas ar gyfer anghenion disgyblion o BOB GALLU.
4. Sustem ARFARNU, MONITRO ac ADRODD ar gyrhaeddiadau disgyblion.

# Gwersi Cerdd

Rhoddir gwersi peripatetig yn yr ysgol mewn offerynnau lleisiol, piano, llinynnol, chwythbrennau, taro a phres. Mae pawb yn cael y cyfle i fanteisio ar y rhain.

# Dathlu Llwyddiant

Dyfernir amryw o wobrau yn flynyddol i ddisgyblion mewn gwahanol gategorïau. Cynhelir seremoniau gwobrwyo ar ddiwedd tymor yr Haf i flwyddyn 7 – 10 ac ym mis Medi i Flwyddyn 11 ac 13.

# Physical Education

## PHYSICAL EDUCATION KIT REQUIREMENTS

- Purple T-shirt with school logo
- Long-sleeved shirt (black and purple with logo) that can be reversed for outdoor activities.
- Black shorts or leggings (with or without logo)
- Black socks (with or without logo)
- Football Boots
- Trainers

### Aims

The work of the department has its basis in two fundamental aims which are centred on releasing individual potential at all levels:

- Developing active life skills
- Personal and social development

### Objectives

These aims are broken down into the following objectives:

1. To encourage and develop skill in a variety of sporting and creative activities.
2. To provide pupils with a range of activities and help them develop a broad repertoire of movement experience.
3. To involve pupils in the continuous process of planning and evaluating activities.
4. To maximise the growth and development of all pupils according to their ability.
5. To arouse in pupils a desire to continue active participation in health - promoting physical activities into adult life.
6. To develop awareness of others, respect for others, co-operation and desirable standards of behaviour and conduct.
7. To develop positive attitudes to personal health and fitness.
8. To provide opportunities for pupils to learn in a variety of ways by adopting a teaching styles.

**These objectives are achieved in four ways:**


1. A BALANCED curriculum consisting of
   - Games
   - Health and Wellbeing
   - Individual activities
   - Outdoor and adventurous activity
2. An EXTENSIVE extracurricular programme including:
   - Specialist Teams
   - Recreate activities
   - Inter-form competitions
3. The use of TEACHING METHODS that caters for the needs of pupils of ALL ABILITIES.
4. A well developed system of EVALUATING, MONITORING and REPORTING pupil achievement.

# Music Lessons

Peripatetic music lessons are given in school on vocal, piano, string, woodwind, percussion and brass instruments. Everyone can take advantage of these opportunities.

# Celebrating Success

A number of prizes for different categories are awarded annually to pupils. Prize giving ceremonies are held at the end of the Summer term for years 7 – 10 and in September for years 11 and 13.


B5420
Mynedfa Allan
Way Out
Parcio Ymwelwyr
Visitors Parking
DIM PARCIO AR Y SLIP FFORDD
NO PARKING ON THE SLIPROAD
Mynedfa i'r Ysgol
School Entrance
Bloc B Block
Mynedfa
Entrance
Parcio Staff
Staff Parking
Ysgol David Hughes
Iard yr Ysgol/School Yard
Ty'r Gofalwr
Caretaker's House
Caeau'r Ysgol/School Fields
Parcio Staff
Staff Parking
BWS YSGOL
Prif Fynedfa/Main Entrance
Parcio Anabledd
Disabled Parking
Parcio Staff
Staff Parking
Mynedfa/Entrance
Parcio Staff
Staff Parking
Bloc A
Block
Parcio Staff/Staff Parking
Girls' Gym
Examinations Room
Maes Parcio Staff
Staff Car Park
Neuadd Chwaraeon
Sports Hall
Maes Parcio Myfyrwyr & Staff
Staff & Student Car Park

# Rhan 2
# Part 2




## Polisïau'r Ysgol
## School Policies

Mae gan yr ysgol nifer o bolisïau/llyfrynnau sydd yn cynnwys y canlynol:

# Polisi Iaith

### Categori Iaith yr Ysgol

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn diffinio categorïau o ysgolion yn ôl faint o Gymraeg a ddefnyddir wrth addysgu a dysgu ac ym mywyd bod dydd yr ysgol. Mae Ysgol David Hughes yn dod o dan Gategori 2B - "Addysgir o leiaf 80% o'r pynciau (ac eithrio'r Gymraeg a'r Saesneg) drwy gyfrwng y Gymraeg ond fe'u haddysgir drwy gyfrwng y Saesneg hefyd".

### Nod y Polisi Iaith

Y nod yw sicrhau bod holl ddisgyblion y sir yn meddu ar ddwyieithrwydd cytbwys oed-berthnasol er mwyn eu galluogi i fod yn aelodau cyflawn o'r gymdeithas ddwyieithog y maent yn rhan ohoni. Wrth "ddwyieithrwydd cytbwys oed-berthnasol" golygir bod disgyblion yn meddu ar sgiliau ieithyddol priodol yn y Gymraeg a'r Saesneg. Yn y sector uwchradd golyga hyn fod pob disgybl yn astudio'r Gymraeg a'r Saesneg fel pynciau hyd at ddiwedd Blwyddyn 11. Disgwylir i bawb sefyll arholiad iaith mewn Cymraeg a Saesneg sy'n addas ar eu cyfer ac sydd hefyd yn adlewyrchu'r angen am ddilyniant mewn datblygiad ieithyddol. Bydd disgyblion hefyd yn sefyll arholiad llenyddiaeth lle bo hynny'n gymwys.

### Darpariaeth Cyfrwng Cymraeg

Ceir darpariaeth ar gyfer dysgu gwahanol bynciau drwy gyfrwng yr iaith Gymraeg a Saesneg. Mae'r pynciau canlynol ar gael drwy gyfrwng y ddwy iaith gan weithio tuag at y cydbwysedd ieithyddol a nodir ym mholisi Iaith yr Awdurdod Addysg: Astudiaethau Crefyddol, Hanes, Daearyddiaeth, Ffrangeg, Almaeneg, Cerddoriaeth, Technoleg, Mathemateg, Gwyddoniaeth, Drama, Celf.

Gyda dysgwyr da, anelir at iddynt rannu eu hamser rhwng gwaith cyfrwng Cymraeg a gwaith cyfrwng Saesneg. Addaswyd lefelau iaith y cyrsiau hyn i gyfateb i hyfedredd ieithyddol y disgyblion. Bydd llawer o'r gwaith hwn yn digwydd gyda'r pynciau Dyneiddiol a Mynegiannol.

Ein dymuniad yw sicrhau datblygiad dwyieithog y disgybl. Golyga hyn i'r disgyblion â hyfedredd oed-berthnasol cyfochrog yn y Gymraeg a'r Saesneg ddilyn rhai pynciau, neu rannau o bynciau drwy gyfrwng y Saesneg a bod dysgwyr da, ar y llaw arall, yn astudio modiwlau o rai pynciau drwy gyfrwng y Gymraeg. Gyda dysgwyr sylfaenol estynnir eu hyfedredd yn y Gymraeg drwy iddynt dreulio cyfran o'u hamser yn gweithio drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae hyn yn cynnwys y gwersi statudol Cymraeg sy'n cyfrif am 12% o'r amser.

Profodd y polisi hwn yn llwyddiannus iawn yn y gorffennol a gobeithiwn adeiladu ar y llwyddiant i'r dyfodol.

### Iaith Gweinyddu

Defnyddir yr iaith Gymraeg i gyfathrebu â disgyblion ac athrawon lle bo hynny'n addas a naturiol. Anfonir pob gwybodaeth ysgrifenedig gan y Pennaeth i'r staff ac i'r rhieni yn Gymraeg yn ogystal â Saesneg. Cynhelir pob gwasanaeth boreol ar gyfer y gwahanol grwpiau blwyddyn yn ddwyieithog. Gofynnir i'r staff a'r disgyblion sicrhau bod pob rhybudd, poster, arwydd a dogfen swyddogol yn ddwyieithog.

# Gwaith Cartref

Mae gosod gwaith cartref yn ddull arall o asesu cynnydd disgybl yn barhaol; mae'n rhan hanfodol o raglen waith pob disgybl. Bydd y gwaith yma'n cynnwys amryw o weithgareddau, ac yn gofyn am ysgrifennu, gwaith dysgu a gwaith ymchwil ar ran y disgybl.

Gosodir gwaith cartref/tasgau i'w cwblhau drwy'r wefan/ap 'Class Charts'. Hysbysir disgyblion a rhieni o'r gwaith sydd angen ei gwblhau drwy'r wefan/ap 'Class Charts'.
Anfonir rhybudd i ddisgyblion a rhieni, os yw gwaith heb ei gwblhau mewn amser.

Mae gan pob disgybl gyfrif Hwb, ble gallent gael mynediad at Google Classroom, i gwblhau gwaith cartref yn ddigidol, yn nôl yr angen. Rydym hefyd yn cynnig Clwb Gwaith Cartref ar ôl ysgol, pob ddydd Llun – Iau tan 17.00 y.h.

The school has a number of policies/booklets which include the following:

# Language Policy

**THE SCHOOL'S LANGUAGE CATEGORY**

The Welsh Assembly Government have defined categories of schools according to the amount of Welsh used in teaching and learning and in the day to day conduct of the school. Ysgol David Hughes comes under Category 2B – "At least 80% of subjects (excluding Welsh and English) are taught through the medium of Welsh but are also taught through the medium of English".

**THE AIM OF THE LANGUAGE POLICY**

The aim is to ensure that all the county's pupils possess an age-related balanced bilingualism to enable them to become full members of the bilingual society of which they are part. By "age-related balanced bilingualism" it is meant that pupils possess the appropriate linguistic skills in both Welsh and English. In the secondary sector this means that pupils study Welsh and English as subjects until the end of Year 11. Everyone is expected to sit a language examination in Welsh and English at a level which is appropriate and which reflects progression and continuity in their linguistic development. Pupils will also take a literature examination where relevant.

**WELSH MEDIUM PROVISION**

Provision is made for teaching various subjects through the medium of Welsh and English. The following subjects may be taken through the medium of both languages, and so work towards the linguistic balance stated in the Education Authority's Language Policy: Religious Studies, History, Geography, French, German, Music, Technology, Mathematics, Science, Drama, Art.

The aim is that proficient learners should share their time between Welsh medium work and English medium work. The language levels of these courses have been adapted to correspond with the pupils' proficiency in the language. Much of this work will be done with the Humanities and Performing Arts.

It is our wish to ensure the bilingual development of the pupil. This means that pupils with parallel age related competencies in Welsh and English will take some subjects, or parts of them, through the medium of English and that proficient learners on the other hand, study modules through the medium of Welsh in some subjects. Basic learners, in order to extend their proficiency in Welsh, spend a proportion of their time working through the medium of Welsh. This includes the statutory Welsh lessons which account for 12% of the time.

This policy has proved to be very successful in the past and we hope to build on this in the future.

**ADMINISTRATIVE LANGUAGE**

Welsh will be used to communicate with pupils and staff where appropriate and natural. Any written information from the Head teacher to staff and parents will be in Welsh as well as English. The morning assemblies for each year group will be bilingual. Staff and pupils are asked to ensure that all notices, posters, signs and official documents are bilingual.

# Homework

Homework is another method of continuously assessing a pupil's progress and is an essential element of each pupil's programme. It entails various activities, including written work, learning work and research.

Homework/tasks to be completed are placed on the 'Class Charts' website/app. Pupils and parents are notified of any work that needs to be completed via the 'Class Charts' website/app. Alerts are sent to remind pupils and parents, if work is not completed on time.

Every pupil has a Hwb account, where they can access Google Classroom, to complete homework digitally, as and when required. We also offer an after school homework club, which is on every Mon – Thurs till 17.00 p.m.

# Polisi Addysg Rhyw a Pherthnasoedd

Mae'r Corff Llywodraethol wedi cymeradwyo'r datganiad polisi a ganlyn ar Addysg Rhyw fel y mae'n ofynnol gan Adran 21 y Ddeddf Addysg, gan ddilyn canllawiau Llywodraeth y Cynulliad fel y'u gosodwyd yng nghylchlythyr 11/02, a chylchlythyr yr AALl ar bolisïau Addysg Rhyw a Pherthnasoedd mewn ysgolion. Mae Addysg Rhyw yn rhan o'r cwricwlwm gorfodol y mae pob disgybl â hawl gyffredin iddo. Darperir rhaglen sydd yn helpu disgyblion i ddatblygu gwybodaeth sy'n briodol ar gyfer oedran, dealltwriaeth a datblygiad y myfyrwyr

## NOD

Nod y rhaglen Addysg Rhyw a Pherthnasoedd yw helpu a chefnogi ein pobl ifanc wrth iddynt ddatblygu'n gorfforol, yn emosiynol, yn foesol ac yn ysbrydol o blentyndod, trwy lencyndod i fod yn oedolion. Bydd y rhaglen yn sicrhau y gall y myfyrwyr wneud penderfyniadau synhwyrol yn seiliedig ar wybodaeth. Fe'u hanogir i barchu eu hunain ac eraill a chânt eu paratoi ar gyfer cyfleoedd, cyfrifoldebau a phrofiadau bywyd fel oedolion, yn ogystal â'r cyfle i ddatblygu agweddau, gwerthoedd a sgiliau sy'n dylanwadu ar y modd y maent yn ymddwyn.

### AMCANION

Bydd y myfyrwyr yn

1. Deall pwysigrwydd perthnasoedd sefydlog a chariadus
2. Datblygu sgiliau er mwyn adeiladu perthnasau llwyddiannus â chyfeillion a'r gymuned ehangach
3. Dysgu am natur ac arwyddocâd priodas a phwysigrwydd hynny wrth fagu plant
4. Dysgu am ryw, rhywioldeb ac iechyd rhywiol, gan gynnwys y gyfraith mewn perthynas â hyn
5. Meithrin hyder, ymwybyddiaeth a hunan barch
6. Datblygu dealltwriaeth o amrywiaeth mewn cymdeithas, hyrwyddo cyfle cyfartal a herio rhagfarn
7. Gwybod lle i gael cyngor am faterion perthnasol
8. Cael cyfleoedd i drafod materion yn agored

### CYFLE CYFARTAL

Yn unol â pholisi'r ysgol ar gyfle cyfartal, bydd pob disgybl yn cael mynediad i'r rhaglen a osodwyd gan yr ysgol ar addysg rhyw a fydd yn cael ei ddysgu mewn grwpiau gallu cymysg.

### MATERION PENODOL

Pan fo disgybl yn mynd at athro am gyngor penodol am faterion yn ymwneud â rhyw/atal cenhedlu, dylai athrawon, ble bynnag y bo modd, annog y disgybl i ofyn i'w rieni am gyngor ac os yw hynny'n briodol gan y gweithwyr proffesiynol perthnasol o fewn y gwasanaeth iechyd.

### CYFRINACHEDD

Wrth gael eu dysgu mewn grwpiau, gwneir y disgyblion yn ymwybodol o ddoethineb wrth rannu materion personol gyda'u cyfoedion. Y gobaith yw y bydd gan y disgyblion hyder y bydd eu hathrawon yn gwrando arnynt, yn eu cefnogi ac yn parchu eu hymddiriedaeth. Mae'n rhaid i athrawon, fodd bynnag, rybuddio unrhyw berson ifanc sy'n dymuno ymddiried ynddynt na allant addo cyfrinachedd mewn materion amddiffyn plant. Dilynir y camau a nodir yn y 'Polisi Amddiffyn Plant'.

### NYRS YSGOL

Mae'r ysgol yn cydweithio gyda'r gwasanaeth iechyd ac yn gallu cyfeirio disgyblion at y nyrs ysgol am gefnogaeth materion meddygol.

# Polisi Trefn Cwyno

Dylai unrhyw berson sy'n dymuno gwneud cwyn yn y lle cyntaf gysylltu â'r Pennaeth. Os na chaiff y mater ei ddatrys, yna gall y gŵyn ei chyfeirio at Gadeirydd y Llywodraethwyr. Gellir cysylltu â'r Cadeirydd drwy'r ysgol. Y Corff Llywodraethol sydd â'r cyfrifoldeb terfynol a statudol ar gyfer gwrando ar gwynion, beirniadu a phenderfynu ar y camau i'w cymryd. Gellir gweld copi llawn o'r Polisi Cwynion drwy gysylltu â'r ysgol.

# Sex Education and Relationships Policy

The Board of Governors has approved the following policy statement on Sex Education as required by Section 21 of the Education Act, taking note of the Welsh Assembly Government guidelines as set out in circular 11/02 and the LEA circular regarding Sex Education and Relationships policies in schools. Sex Education forms part of the compulsory common entitlement curriculum for all pupils. The programme delivered helps pupils develop knowledge which is appropriate to their age, understanding and development.

## AIMS

The aim of the Sex Education and Relationships programme is to assist and support our young people during their physical, emotional, moral and spiritual development from childhood to adolescence and then to adulthood. The programme ensures that students are able to make sensible decisions based on their knowledge. Pupils are encouraged to respect themselves and others as they prepare for the opportunities, responsibilities and experiences of adult life. There will also be an opportunity to develop attitudes, values and skills that will influence their behaviour.

### OBJECTIVES

Students will:

1. Understand the importance of stable and loving relationships
2. Develop skills in order to build successful relationships with friends and the wider community
3. Learn about the nature and significance of marriage and its importance in raising children
4. Learn about sex, sexuality and sexual health, including the law regarding these
5. Develop confidence, awareness and self-esteem
6. Develop understanding of diversity within society, promote equal opportunities and challenge prejudice
7. Know where to seek advice on relevant issues
8. Be given opportunities to discuss matters openly.

### EQUAL OPPORTUNITIES

In keeping with the school policy on equal opportunities, all pupils will have access to the programme set out by the school on sex education and will be taught in mixed ability groups.

### SPECIFIC ISSUES

Teachers who are approached by a pupil for specific advice on sex/contraception should, wherever possible, encourage the pupil to seek advice from his or her parents and, if appropriate, from the relevant health service professionals.

### CONFIDENTIALITY

When being taught in groups, pupils will be made aware of being discreet in their personal exchanges with their peers. It is hoped that the pupils have the confidence that their teachers will listen to them, support them and respect their confidence. Teachers must, however, warn a young person who wishes to confide in them that they cannot promise confidentiality where child protection is an issue. The procedure set out in the 'Child Protection Policy' is followed.

### SCHOOL NURSE

The school works with the health service and can make pupil referrals to the school nurse for support for medical issues.

# Complaints Policy

Any person wishing to make a complaint should in the first instance contact the Head teacher. If the matter is not resolved then the complaint can be referred to the Chair of Governors, which can be contacted via the school. The Governing Body has the ultimate and statutory responsibility for hearing complaints, judging and deciding on the steps to take. A full copy of the Complaints Policy can be seen by contacting the school.

# Polisi Codi Tâl

Mae'r Corff Llywodraethol wedi mabwysiadu polisi o godi tâl ar ddisgyblion am:

1. Gostau llety a bwyd ar ymweliadau addysgol;
2. Weithgareddau y tu allan i oriau ysgol;
3. Arholiadau allanol, pan nad yw'r ysgol wedi paratoi'r disgyblion ar eu cyfer yn ystod y flwyddyn honno;
4. Arholiadau pan fo disgybl yn methu â chyflawni'r gofynion neu'n methu â mynychu'r arholiad heb reswm digonol;
5. Ddifrod bwriadol i eiddo'r ysgol neu am golli eiddo'r ysgol.

Gofynnir am gyfraniad gwirfoddol gan rieni pan na ellir codi tâl am weithgareddau ond sicrheir na waherddir disgyblion rhag cymryd rhan pan na all eu rhieni gyfrannu.  Mae'n bosibl na fydd modd cynnal rhai gweithgareddau heb gefnogaeth wirfoddol deilwng.

Ceir manylion pellach yn yr ysgol ynghyd â gwybodaeth am ddarpariaeth ar gyfer disgyblion anghenus.

# Polisi Cyfle Cyfartal

Mae'n ddyletswydd ar y Corff Llywodraethol a'r Pennaeth i hyrwyddo cyfle cyfartal a pherthynas dda yn yr ysgol i'w holl weithwyr a disgyblion. Mae'r ysgol wedi gweithredu polisi i'r perwyl hwn. Mae'r polisi hwn yn sail ar gyfer llawer o  benderfyniadau a gymerir o fewn yr ysgol. Gellir gweld copi llawn o'r Polisi Cyfle Cyfartal drwy gysylltu â'r ysgol.

# Cynllun Cyhoeddi

Ein teitl a'n cyfeiriad llawn er mwyn anfon ceisiadau am unrhyw ddogfennau yw:  Ysgol David Hughes, Ffordd Pentraeth, Porthaethwy, Ynys Môn, LL59 5SS
Y sawl sy'n gyfrifol am gynnal y cynllun hwn yw:  Mr H. Emyr Williams, Pennaeth

### BETH YW CYNLLUN CYHOEDDI A'R RHESWM DROS EI DDATBLYGU?

Un o nodau Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 (y cyfeirir ati fel DRhG yng ngweddill y ddogfen hon) yw y dylai awdurdodau cyhoeddus, gan gynnwys yr holl ysgolion a gynhelir, gymryd camau i egluro pa wybodaeth y byddant yn ei darparu i'r cyhoedd.

Er mwyn gwneud hyn, rhaid i ni lunio cynllun cyhoeddi sy'n nodi:

- Y dosbarthiadau gwybodaeth yr ydym yn eu cyhoeddi neu'n bwriadu eu cyhoeddi;
- Y ffordd y cyhoeddir y wybodaeth;  ac
- A yw'r wybodaeth ar gael yn rhad ac am ddim neu a oes rhaid talu amdani.

Mae'r cynllun yn delio â'r wybodaeth a gyhoeddwyd eisoes a gwybodaeth a gyhoeddir yn y dyfodol. Mae'r holl wybodaeth yn ein cynllun cyhoeddi [naill ai ar gael i chi ar ein gwefan i'w llwytho i lawr a'i hargraffu neu] ar gael ar bapur.
Trefnir y dosbarthiadau gwybodaeth y bwriadwn sicrhau eu bod ar gael, yn bedwar maes pwnc bras:

- **Prosbectws yr Ysgol** – gwybodaeth a gyhoeddir ym mhrosbectws yr ysgol.
- **Dogfennau Llywodraethwyr** – gwybodaeth a gyhoeddir yn Adroddiad Blynyddol y Llywodraethwyr ac mewn dogfennau eraill gan y corff llywodraethu.
- **Disgyblion a Chwricwlwm** – gwybodaeth am bolisïau sy'n ymwneud â disgyblion a chwricwlwm yr ysgol.
- **Polisïau'r Ysgol** – gwybodaeth am bolisïau sy'n ymwneud â'r ysgol yn gyffredinol.

**SUT I OFYN AM WYBODAETH**

Gallwch ofyn i'r Pennaeth am gopi o'r wybodaeth yr hoffech ei gweld.
Os nad yw'r wybodaeth yr hoffech ei gweld ar gael dan y cynllun [ac os nad yw ar ein gwefan], mae'n dal yn bosibl i chi holi a yw'r wybodaeth gennym.  Gallwch gysylltu â'r ysgol dros y ffôn, y ffacs, e-bost neu trwy lythyr.

**E-bost:** 6604028_pennaeth.ydh@Hwbcymru.net
**Ffôn:** 01248 712287
Cyfeiriad Cyswllt:  Ysgol David Hughes, Ffordd Pentraeth, Porthaethwy, Ynys Môn, LL59 5SS

I'n helpu i brosesu'ch cais yn gyflym, nodwch y geiriau "CAIS DAN Y CYNLLUN CYHOEDDI" (mewn LLYTHRENNAU BRAS mewn print trwm) yn eglur ar unrhyw ohebiaeth.

# Policy on Charging

The Governing Body has adopted a policy of charging pupils for:

1. Board and lodging costs on educational visits;
2. Activities outside school hours;
3. External examination for which the school has not prepared the pupil during that school year;
4. Examinations when the pupil fails to complete the requirements or fails to attend the examination without a proper reason;
5. Intentional damage to school property or for losing school property.

A voluntary contribution is requested from parents when it is not possible to charge for an activity but no pupils will be excluded from taking part when their parents cannot contribute. It is possible that some activities will not be held without sufficient voluntary contributions.

Further details are available at the school along with information about the provision for needy children.

# Equal Opportunity Policy

It is the duty of the Governing Body and Head teacher to promote equal opportunities and good relations at the school to all its workers and pupils. The school has implemented a policy to this end. This policy is the basis for many decisions taken within the school. A full copy of the Equal Opportunity Policy can be seen by contacting the school.

# Publication Scheme

Our full title and address for sending requests for any documents is: Ysgol David Hughes, Pentraeth Road, Menai Bridge, Anglesey, LL59 5SS

The person responsible for maintenance of this scheme is: Mr H Emyr Williams, Head teacher

**WHAT IS A PUBLICATION SCHEME AND THE REASON FOR ITS DEVELOPMENT?**

One of the aims of the Freedom of Information Act 2000 (which is referred to as FoIA in the rest of this document) is that public authorities, including all maintained schools, should be clear and proactive about the information they will make public.

To do this we must produce a publication scheme, setting out:

- The classes of information which we publish or intend to publish;
- The manner in which the information will be published; and
- Whether the information is available free of charge or on payment.

The scheme covers information already published and information which is to be published in the future. All information in our publication scheme is [either available for you on our website to download and print off or] available in paper form.

The classes of information that we undertake to make available are organised into four broad topic areas:

- **School Prospectus** - information published in the school prospectus.
- **Governors' Documents** - information published in the Governors' Annual Report and in other governing body documents.
- **Pupils & Curriculum** - information about policies that relate to pupils and the school curriculum.
- **School Policies** - information about policies that relate to the school in general.

**HOW TO REQUEST INFORMATION**

You can request a copy of the information you want from the Headteacher.

If the information you're looking for isn't available via the scheme [and isn't on our website], you can still ask if we have it. You can contact the school by telephone, fax, email or letter.

| | |
|---|---|
| Email: | 6604028_pennaeth.ydh@Hwbcymru.net |
| Tel: | 01248 712287 |
| Contact Address: | Ysgol David Hughes, Pentraeth Road, Menai Bridge, Anglesey, LL59 5SS |

To help us process your request quickly, please clearly mark any correspondence "PUBLICATIONS SCHEME REQUEST" (in bold CAPITALS).

# Y Rhyngrwyd - Diogelwch

Mae'n wir dweud bod llond gwlad o gyfleoedd newydd ar gael yn sgil y rhyngrwyd. Os ydyw'n cael ei ddefnyddio'n gywir, gall gyfoethogi addysg ein plant a chynnig digonedd o adnoddau dysgu. Os ydyw'n cael ei ddefnyddio mewn ffordd amhriodol neu ddiniwed gall arwain at blant yn rhoi eu hunain ac eraill mewn perygl. Mae Ysgol David Hughes o ddifrif ynglŷn â'r angen i addysgu disgyblion ynghylch bod yn bwyllog wrth ddefnyddio'r rhyngrwyd. Er enghraifft, bydd bob disgybl ym Mlwyddyn 7 yn dilyn modiwl Technoleg Gwybodaeth sy'n rhoi sylw i beryglon sgwrsio ar-lein a magu perthynas amhriodol ('grooming') ar-lein, a rhoddir sylw i faterion tebyg mewn gwersi ABCh ac Iechyd a Chymdeithasol yn hwyrach ymlaen. Rydym hefyd yn defnyddio meddalwedd arbenigol i gyfyngu ar y gwefannau y gall disgyblion eu defnyddio pan fyddant yn defnyddio rhwydwaith gyfrifiadurol yr ysgol. Mae hyn yn cynnwys gwahardd holl wasanaethau rhyngweithiol megis 'chat rooms', e-bost, 'Instant Messenger', ayyb.

Fodd bynnag, rydym yn gwybod bod disgyblion yn sgwrsio/anfon negeseuon ar-lein pan fyddant adref, ac mae nifer ohonynt wedi creu eu gwefannau eu hunain - sy'n aml yn cynnwys gwybodaeth bersonol, gan ddefnyddio gwefannau megis bebo.com, myspace.com, youtube.com ayyb. Fel y gallem ddisgwyl, nid yw'r un lefel o oruchwyliaeth ar gael yn y cartref o'i gymharu â'r ysgol (un o'r problemau yw eu bod 'nhw' yn aml yn gwybod mwy na ni!) ond y mae'n bwysig ceisio meithrin ein plant i ymddwyn yn 'ddiogel a chyfrifol', yn enwedig pan fyddant yn defnyddio'r rhyngrwyd. Rydym yn siŵr y byddwch chi fel rhieni'n awyddus i'n cefnogi ar y mater hwn, a phwrpas y llythyr hwn yw rhoi gwybod i chi am ychydig yn unig o'r nifer fawr o wefannau cymorth sydd ar gael ar y we sy'n cynnig adnoddau a syniadau i annog deialog ryngweithiol rhwng rhieni a'u plant ifanc.

**CEOP** (Child Exploitation and Online Protection Centre) – y ganolfan genedlaethol ar gyfer diogelwch ar y rhyngrwyd. Gallwch ymweld â'u gwefan ar www.ceop.gov.uk. Gwefan arall sy'n cael ei darparu gan y CEOP, sy'n galluogi oedolion a phlant i roi gwybod i'r heddlu os ydynt yn amau bod rhywun yn magu perthynas amhriodol ar-lein ('grooming') yw www.thinkuknow.co.uk.

**Childnet International** – elusen a sefydlwyd ym 1995 i wneud y rhyngrwyd yn fwy diogel i blant. Mae ganddynt wefan sy'n cynnig golwg gyffredinol ar sut mae pobl ifanc yn 'sgwrsio' drwy ddefnyddio amrediad o gyfryngau rhyngweithiol, gan gynnwys 'chat rooms', 'instant messaging', ffonau symudol a gemau ar-lein. Mae Childnet hefyd wedi cynhyrchu pamffledi, cyflwyniad i rieni a CD ROM yn cynnig cyngor y gellir eu harchebu ar eu gwefan, www.childnet-int.org. Mae'r pecyn adnoddau **'Know IT All'** i ddisgyblion a rhieni, sydd ar gael ar www.childnet-int.org/kia yn disgrifio sut i werthuso gwefannau a ffonau symudol o safbwynt diogelwch.

Mae gwefan **Chatdanger** Childnet www.childnet.com/resources/chatdanger yn cynnwys llawer o straeon personol a chyngor. Ceir ffurflen ar-lein i gysylltu â staff Childnet os oes gan blant gwestiynau arbenigol y maent yn dymuno eu gofyn. Mae Childnet hefyd wedi cynhyrchu 'Jenny's Story', sef, ffilm fer sy'n seiliedig ar stori wir am ferch yn ei harddegau sy'n sgwrsio â dieithryn ar y rhyngrwyd. Mae'r ffilm yn dangos sut mae Jenny'n rhannu gwybodaeth bersonol drwy sgwrsio ar-lein, a sut mae hynny'n arwain at sefyllfa lle mae'r person yn cysylltu â hi mewn bywyd go iawn ac yn y pen draw yn ei brifo.

Yn olaf, ar nodyn cadarnhaol: Nid yw popeth ynglŷn â'r rhyngrwyd yn ddrwg – mae o'n ffordd y gall pobl ifanc mynegi eu hunain.

# Polisi Cydraddoldeb Hiliol ac Amryfaliaeth Diwylliannol

Mae'r Corff Llywodraethu wedi mabwysiadu'r polisi uchod ar gyfer Ysgol David Hughes. Mae'r polisi yn ymgorffori:

- Egwyddorion Arweiniol
- Polisïau ac arfer ysgol
- Delio a Hiliaeth
- Cyfrifoldebau
- Polisi ar waith
- Gwybodaeth ac Adnoddau
- Cadwraeth Grefyddol

Gellir gweld copi o'r polisi llawn trwy gysylltu â'r ysgol.

# Internet Safety

The internet has opened up a whole new world of opportunities. Used properly, it can enhance our children's education and provide a wealth of learning resources. Used inappropriately or naively it can lead to children placing themselves and others at risk. Ysgol David Hughes takes seriously the need to educate pupils about being sensible when using the internet. For example, all year 7 pupils undertake an Information Technology module which exposes the dangers of on-line chat and 'grooming', and similar issues are dealt with in PSE and Health-and-Social lessons later on. We also employ specialist software to restrict the websites that pupils can access whilst using the school computer network and this includes a ban on all interactive services such as chat rooms, e-mail, SMS and Instant Messenger etc.

However, we do know that many pupils engage in chat-line and/or messaging activities whilst at home, and many have built their own web-sites, often containing information of a personal nature, using internet sites such as bebo.com, myspace.com, youtube.com etc. Understandably, home usage does not always have the same level of supervision that school does (one of the difficulties being that 'they' often know more than we do!) but it is important to try to develop 'safe and responsible' behaviour in our children`, particularly when using the internet. We know that as parents you will want to support us in this, and the purpose of this letter is to make you aware of just some of the many help sites available on the internet which have resources and ideas to encourage an interactive dialogue between parents and their young children.

**CEOP** (Child Exploitation and Online Protection Centre) – is the national internet safety centre. You can visit their website at www.ceop.gov.uk. Another CEOP website that allows adults and children to report to police the suspected illegal activity of online grooming can be found at www.thinkuknow.co.uk

**Childnet International** – a charity established in 1995 to make the internet a safer place for children - has a website which gives a good overview or how young people are 'chatting' using a range of interactive media, including chat rooms, instant messaging, mobile phones and online games. Childnet has also produced other advice including leaflets, a parents' presentation and a CD ROM, which can be ordered from their website - www.childnet-int.org. A resource kit for pupils and parents from www.childnet-int.org/kia, named **'Know IT All'**, describes how to evaluate websites and mobile phone safety.

Childnet's **Chatdanger** website www.childnet.com/resources/chatdanger contains lots of personal stories and advice. There is an online contact form if children have specialist questions to ask of Childnet staff. Childnet have also produced Jenny's Story – a short film based on a real story about a teenager who chats to a stranger on the internet. The film shows how, through chatting online, Jenny reveals personal information which results in her being contacted in real life and ultimately hurt.

Finally, on a positive note: The internet is not all bad – it's a way for young people to express themselves.

# Race Equality and Cultural Diversity Policy

The Governing Body has adopted the above policy for Ysgol David Hughes. The policy embodies:

- Leading Principles
- School practice and policies
- Dealing with racism
- Responsibilities
- Policy at work
- Information and Resources
- Religious Preservation

A full copy of the policy can be seen by contacting the school.

# Rhan 3
# Part 3




## Gofal Bugeiliol
## Pastoral Care

Mae trefn gofal bugeiliol yr ysgol yn amcanu at ofalu am les y plentyn, arolygu ei ymddygiad a'i gynnydd cyffredinol a rhoi arweiniad yngl◊n â dewis gyrfa.

# Fframwaith Gofal Bugeiliol

Y mae'r drefn fugeiliol yn seiliedig ar diwtoriaid dosbarth a Phenaethiaid Blwyddyn. Y tiwtor dosbarth sy'n uniongyrchol gyfrifol am ofalu am les personol pob aelod o'r dosbarth ac am arolygu eu hymddygiad a'u cynnydd academaidd. Bydd y Pennaeth Blwyddyn yn cydweithio'n agos â'r tiwtoriaid dosbarth gan gyfarfod â hwy'n gyson. Bydd y Pennaeth Blwyddyn yn dod yn gyfarwydd â phob disgybl sydd o dan ei ofal ac yn delio â phob mater pwysig sydd yn ymwneud â'r disgybl hwnnw. Gellir cyfeirio problemau anodd neu ddifrifol i sylw un o'r Uwch Dîm Rheoli ac (mewn rhai achosion) i sylw'r Pennaeth.

Bydd y Swyddog Lles Addysg yn ymweld â'r ysgol yn gyson. Mae'r ysgol hefyd yn cydweithio'n agos â nifer o asiantau allanol megis Seicolegwyr Addysg, Swyddog Cyswllt yr Heddlu a'r Gwasanaethau Cymdeithasol.

# Hyrwyddo Ymddygiad Da

### NODAU

1. Hyrwyddo lles trwy greu amgylchedd diogel, gofalus a chefnogol i bob aelod o gymuned yr ysgol.
2. Meithrin cyfeillgarwch a pherthnasau positif trwy barchu amrywiaeth a bod yn sensitif tuag at eraill.
3. Maethu rhinweddau personol fel caredigrwydd, optimistiaeth, uniondeb a pharch.
4. Datblygu arweinyddiaeth, annibyniaeth, hyder a gwytnwch ym mhob disgybl.

### AMCANION

- Meithrin adnabyddiaeth drylwyr o'n disgyblion
- Gosod disgwyliadau uchel o ran ymddygiad disgyblion trwy fodelu ymddygiad da.
- Hyrwyddo cyd-berthnasu effeithiol ymhob agwedd o fywyd a chwricwlwm yr ysgol
- Darparu cwricwlwm priodol sy'n annog llwyddiant a meithrin hunanddelwedd pob disgybl
- Cefnogi disgyblion yn effeithiol mewn gwersi a thrwy drefn fugeiliol effeithiol
- Hyrwyddo rheolau ysgol sy'n hysbys i bawb ac yn dryloyw
- Gweithredu trefn 'Hyrwyddo Ymddygiad Da' yn gyson gyda'r pwyslais ar ddisgyblaeth gadarnhaol
- Sicrhau cyfleoedd datblygiad proffesiynol a chefnogaeth i aelodau'r staff ym maes rheoli ymddygiad
- Cynnwys disgyblion mewn trafodaethau am ymddygiad trwy gyfrwng y cynghorau disgyblion
- Cydweithio'n effeithiol gyda rhieni disgyblion pan fod ymddygiad dysgwr yn peri pryder
- Cydweithio rhyngasiantaethol bwriadus er mwyn diwallu anghenion yr holl ddisgyblion.
- Dathlu llwyddiant disgyblion
- Monitro ac arfarnu gweithdrefnau'r ysgol yn rheolaidd

### CÔD YMDDYGIAD YSGOL DAVID HUGHES

Mae ein cod wedi selio ar dri egwyddor syml, cofiadwy a hanfodol bwysig sef:- PARCH, PAROD a DIOGEL

| PARCH | PAROD | DIOGEL |
|---|---|---|
| Dangoswch barch atoch chi eich hun<br>Parchwch eich cyd-ddisgyblion, staff ac ymwelwyr<br>Byddwch yn onest<br>Siaradwch yn gwrtais bob amser gan ddefnyddio iaith briodol.<br>Byddwch yn garedig i chi'ch hun ac i eraill<br>Parchwch amrywiaeth<br>Parchwch hawl eich cyd-ddisgyblion i ddysgu<br>Parchwch eiddo'r ysgol ac eiddo cyd-ddisgyblion<br>Parchwch eraill a gwrandewch arnynt<br>Parchwch yr adeilad a'r bobl sydd ar y coridorau<br>Parchwch yr iaith Gymraeg<br>Defnyddiwch eich ffonau symudol pan mae caniatâd i chi wneud. | Byddwch yn barod i lwyddo.<br>Byddwch yn brydlon i'r ysgol ac i wersi<br>Dewch â'r offer priodol i'ch gwersi<br>Dilynwch gyfarwyddiadau'r athro y tro cyntaf<br>Canolbwyntiwch ar eich gwaith<br>Gofynnwch am gymorth os nad ydych yn deall beth i'w wneud<br>Byddwch yn barod i gydweithio gyda disgyblion a staff<br>Gwnewch amser i ymlacio<br>Byddwch yn barod i wynebu heriau ac i ddyfalbarhau<br>Edrychwch ar ôl eich hunan yn gorfforol ac yn feddyliol. | Siaradwch gydag aelod o'r staff os oes rywbeth yn eich poeni<br>Gwisgwch y wisg ysgol gywir<br>Cofrestrwch bob bore yn brydlon<br>Rheolwch eich tymer<br>Byddwch yn ofalus iawn wrth ddefnyddio cyfryngau cymdeithasol<br>Byddwch yn gyfrifol a derbyn cyfrifoldeb<br>Cerddwch yn gall a threfnus gan ddilyn y system unffordd<br>Cadwch yr ysgol yn daclus<br>Arhoswch ar safle'r ysgol trwy gydol y diwrnod<br>Sicrhewch nad ydych yn dod ag unrhyw offer/sylwedd i'r ysgol allai beryglu eich hun neu eraill. |

The aim of the school's system of pastoral care is to look after the pupil's welfare, to supervise their behaviour and general progress and to offer career guidance.

# Pastoral Care Organisation

The pastoral system is based on form tutors and Heads of Years. The form tutor is directly responsible for looking after the personal welfare of every member of the form and for supervising their conduct and academic progress. The Head of the Year co-operates closely with the form tutors and meet them frequently. The Head of Year will become familiar with every pupil who in under his/her care and will deal with every important matter concerning that pupil. Difficult or serious problems may be brought to the attention of one of the Senior Management Team and (in some instances) to the Head teacher's attention.

The Educational Welfare Officer visits the school regularly. The school also co-operates closely with a number of outside agencies such as Educational Psychologists, Police Liaison Officer and the Social Services.

# Promoting Good Behaviour

**AIMS**

1. Promote well-being by creating a safe, caring and supportive environment for every member of the school community.
2. Nurture friendships and positive relationships by respecting diversity and being sensitive towards others.
3. Foster personal attributes such as kindness, optimism, integrity and respect.
4. Develop leadership, independence, confidence and resilience in all pupils.

**OBJECTIVES**

- Get to know and understand our pupils well
- Set high expectations with regards to pupil behaviour by modelling good behaviour
- Promote effective relationships in every aspect of school life and the curriculum
- Provide an appropriate curriculum which encourages success and develops every pupil's self-image
- Effectively support pupils in lessons and ensure a strong pastoral system
- Promote school rules which are familiar to all and transparent
- Implement the 'Promoting Good Behaviour' system consistently, whilst emphasising assertive discipline
- Ensure professional development opportunities and support for members of staff in the field of behaviour management
- Include pupils in discussions through the pupil councils.
- Work effectively with the parents of pupils whose behaviour causes concern
- Specific inter-agency collaboration in order to meet the needs of all pupils.
- Celebrate pupils' successes
- Regularly monitor and evaluate school procedures regularly

**YSGOL DAVID HUGHES CODE OF CONDUCT**

Our code is based on three simple, memorable and crucial principles, which are:- RESPECT, READY and SAFE

| RESPECT | READY | SAFE |
|---|---|---|
| Show self-respect<br>Respect your peers, staff and visitors<br>Be honest<br>Speak politely and use appropriate language at all times.<br>Be kind to yourself and others<br>Respect diversity<br>Respect your peers' right to learn<br>Respect school property and the property of your peers<br>Respect others and listen to them<br>Respect the building and the people on the corridors<br>Respect the Welsh language<br>Use your mobile phones when you have permission to do so. | Be ready to succeed.<br>Be punctual to school and to lessons<br>Bring the correct equipment to lessons<br>Follow the teachers' instructions first time<br>Concentrate on your work<br>Ask for help if you are unsure what to do<br>Be prepared to work with pupils and staff<br>Make time for relaxing<br>Be ready for challenges and perseverance<br>Look after yourself physically and mentally. | Speak to a member of staff if something is worrying you<br>Wear the correct school uniform<br>Register every morning promptly<br>Control your temper<br>Be careful when using social media<br>Be responsible and accept responsibility<br>Walk in an orderly manner and follow the one-way system<br>Keep the school tidy<br>Stay on the school site all day<br>Ensure that you don't bring any equipment/substance to school that could harm others |

### Ymddygiad ar y coridorau

- Parchwch yr adeilad a'r bobl sydd ar y coridorau
- Cerddwch yn gall a threfnus gan gadw ar y chwith
- Cadwch yr ysgol yn daclus

## RHEOLAU YSGOL – CYFFREDINOL

### 1. GWISG YSGOL

- Disgwylir i'r disgyblion wisgo gwisg ysgol. Mae'r manylion perthnasol yn llawlyfr yr ysgol.
- Mae'n rhaid tynnu côt ymhob gwers a gwasanaeth.
- Ar ddiwedd gwers Addysg Gorfforol disgwylir i bawb newid yn ôl i'w gwisg ysgol.
- Dilynir gweithdrefnau'r ysgol pan nad yw disgybl yn cydymffurfio â rheolau.

### 2. CYRRAEDD A GADAEL YR YSGOL

- Ni chaiff disgyblion adael tir yr ysgol yn ystod y dydd ag eithrio:
  - * Blwyddyn 12/13 sydd â chaniatâd i fynd i Siop Newydd yn ystod cyfnodau digyswllt neu sydd â chytundeb i fod oddi ar safle'r ysgol.
- Os yw disgybl yn gorfod gadael yr ysgol yn ystod y dydd i fynd at y meddyg neu'r deintydd, er enghraifft, bydd rhaid i'r rhiant hysbysu'r ysgol, drwy ffonio neu gyflwyno llythyr/cerdyn apwyntiad yn y dderbynfa neu rhoi nodyn ar 'school gateway' neu 'class charts'
- Os bydd disgybl yn cyrraedd yn hwyr mae'n rhaid i'r disgybl ddod drwy'r Dderbynfa yn syth.
- Ar ddiwedd y prynhawn mae angen cerdded at y bysiau yn drefnus a chymryd pob gofal wrth groesi'r lôn fawr y tu allan i'r fynedfa.

### 3. PRYDLONDEB

- Mae'n rhaid i'r disgyblion gyrraedd yr ysgol yn brydlon am 8.45am bob bore a bod wrth yr Ystafell Gofrestru neu'r Neuadd Fawr am 8.50am. Os byddant yn cyrraedd ar ôl i gofrestru gau, byddant yn derbyn marc hwyr ar y gofrestr ac os na dderbynwyr esboniad gan riant byddant hefyd yn derbyn marc negyddol ar 'Class Charts'.
- Rhaid symud yn drefnus ar hyd y coridorau gan symud o un wers i'r nesaf heb wastraffu amser.

### 4. TREFNIADAU AMSER EGWYL AC AMSER CINIO

Mae'n rhaid cadw at y trefniadau a ganlyn amser cinio:

- Prydau bwyd a brechdanau i'w bwyta yn y Ffreutur.
- Nid oes neb i grwydro'r coridorau dan fwyta.
- Caniateir defnyddio caeau'r ysgol yn ystod amser egwyl ac amser cinio, os yw'r tywydd a chyflwr y caeau yn caniatáu.
- Mae'n rhaid cadw'n glir o geir staff yr ysgol.
- Ni chaniateir i ddisgyblion fynd i'r Pines.

**RHAID DEFNYDDIO'R BINIAU SBWRIEL NEU AIL-GYLCHU PWRPASOL A GEIR O AMGYLCH YR YSGOL**

### 5. TEITHIAU YSGOL

- Pan fydd disgyblion yn mynd ar daith ysgol bydd gofyn iddynt gydymffurfio â'r rheolau a'r drefn ar gyfer y daith.
- Bydd gofyn i ddisgyblion arwyddo'r datganiad ynglŷn ag ymddygiad cyn mynd ar unrhyw daith dramor.

### 6. Y TU ALLAN I'R YSGOL

Mae'n rhaid cofio bod enw da'r ysgol yn dibynnu ar ymddygiad y rhai sy'n perthyn iddi. Disgwylir gofal ac ymddygiad teilwng.

**Behaviour on the corridors**

- Respect the building and other people on the corridors
- Walk sensibly and in an orderly manner, keeping to the left
- Keep the school tidy

**SCHOOL RULES – GENERAL**

1. **SCHOOL UNIFORM**
   - Pupils are expected to wear a school uniform. The relevant details can be found in the school handbook.
   - Pupils must take off their coats in every lesson and in the assembly.
   - At the end of Physical Education lessons all pupils are expected to change back into their school uniforms.
   - School procedures are followed when a pupil does not conform to the rules.

2. **ARRIVING AT AND LEAVING THE SCHOOL**
   - Pupils are not allowed to leave the school grounds during the day except for:
     * Years 12/13 who have permission to go to Siop Newydd during non-contact periods or who have a contract allowing them to be off school grounds.
   - If a pupil has to leave the school during the day to visit the doctor or dentist, for example, the parent must inform the school, by phone or by presenting an appointment card/letter in reception or wrinting a note on 'School Gateway' or 'Class Charts'.
   - If a pupil arrives late they must go through Reception immediately.
   - At the end of the afternoon pupils should walk in an orderly manner to the buses and take every care when crossing the main road outside the school.

3. **PUNCTUALITY**
   - Pupils should arrive at the school promptly at 8.45am every morning and be outside the Registration Class or the Main Hall at 8.50am. If they arrive after registration closes, they will receive a late mark on the register and if no explanation is given by a parent they will also receive a negative mark on Class Charts
   - They should move in an orderly manner along the corridors, moving from lesson to lesson without wasting time.

4. **BREAK AND LUNCH TIME ARRANGEMENTS**
   The following arrangements must be adhered to at lunchtime:
   - Meals and sandwiches to be eaten in the Canteen.
   - No-one is to wander the corridors eating their lunch.
   - Use of the school fields is allowed during break and lunch times if the weather and the condition of the fields permits.
   - Pupils should keep clear of cars parked on the premises.
   - Pupils are not permitted to go to the Pines.

**THE WASTE AND RECYCLING BINS SEEN AROUND THE SCHOOL MUST BE USED**

5. **SCHOOL TRIPS**
   - When pupils go on a school trip they will be required to conform to rules and arrangements on the trip.
   - Pupils will be required to sign a declaration as regards behaviour before going on any foreign visit.

6. **OUTSIDE THE SCHOOL**
   The school's good name depends on the behaviour of those connected to it. Care and worthy behaviour is expected.

7. **CYFFREDINOL**
**NI CHANIATEIR TYBACO, FÊPS, ALCOHOL** na **CHYFFURIAU** ar dir yr ysgol nac ar unrhyw daith/ymweliad a drefnir gan yr ysgol. Bydd unrhyw ddisgybl sydd â sylwedd o'r fath yn ei feddiant, neu yn bwriadu dosbarthu sylweddau, yn wynebu gwaharddiad parhaol o Ysgol David Hughes.
**NI CHANIATEIR I DDISGYBLION DDOD AG OFFER PERYGLUS I'R YSGOL ee CYLLYLL**
**MAE'N RHAID I DDISGYBLION FOD YN GYFARWYDD Â'R RHEOLAU TÂN A GWEITHDREFNAU DIGWYDDIAD CRITIGOL (CLOI'R YSGOL)** a hefyd y rheolau diogelwch mewn pynciau penodol. Mae'n rhaid cadw at y rheolau er mwyn diogelwch pawb.

### Cyswllt â'r Cartref
Anogir rhieni i gymryd diddordeb yn addysg eu plant ac i hyrwyddo pob ymdrech i feithrin perthynas iach rhwng yr ysgol a'r cartref. I'r diben hwn, trefnir Cyfarfodydd Rhieni ar gyfer pob blwyddyn yn ei thro. Gwahoddir rhieni hefyd i'r amrywiol weithgareddau a drefnir gan yr ysgol. Mae Wefannau Class Charts a'r School Gateway yn ffordd effeithiol o gysylltu efo'r ysgol a monitro gwaith eich plentyn. Gall rhiant neu warcheidwad drefnu cyfweliad personol a'r Pennaeth yn yr ysgol ond i'r trefniant gael ei gadarnhau ymlaen llaw drwy lythyr neu ar y ffôn.

# Ffonau Symudol
### CANLLAWIAU – DEFNYDD CYFRIFOL O DECHNOLEG
Mae'r oes dechnolegol hon yn cynnig nifer o fanteision i ddysgwyr ond mae'r ysgol hefyd yn gorfod delio gyda sgil-effeithiau y camddefnydd o'r dechnoleg hon. Gofynnwn am eich cefnogaeth a chydweithrediad gyda'r canlynol:-

### FFONAU SYMUDOL AC OFFER ELECTRONEG PERSONOL
Ni ddylai dysgwyr ddod â ffonau symudol nac unrhyw offer electroneg personol arall (fel oriawr glyfar sy'n cysylltu â'r wê) i'r ysgol. Mae'r ysgol o'r farn bod ffonau symudol ac offer electroneg personol eraill yn cael effaith negyddol ar allu dysgwyr i ganolbwyntio ac ymroi i'w haddysg, yn ogystal â chreu cyfleoedd di-angen i lesteirio lles ein dysgwyr e.e. rydym o'r farn bod bwlio technolegol/cyfathrebol yn sefyll ochr yn ochr â ffurfiau eraill o fwlio. Hefyd, mae gan y byrddau arholi reolau llym a byddant yn anghymhwyso (disqualify) dysgwr os bydd ffôn symudol neu declun electroneg personol.
Gall unrhyw ddysgwr y mae arno angen defnyddio ffôn yn ystod y dydd ddefnyddio ffôn yr ysgol, drwy ymweld â'r Dderbynfa neu'r Porth.

### TREFN DISGYBLU
Pe bai dysgwr yn defnyddio ffôn symudol neu unrhyw offer electroneg personol tra ar safle'r ysgol mi fydd yn derbyn cosb yn unol â pholisi 'Hyrwyddo Ymddygiad Da' yr ysgol. Mi fydd disgwyl i'r unigolyn roi ei ffôn neu declyn i aelod o staff bydd yn ei gadw mewn amlen gydag enw'r dysgwr arno unai yn y Porth neu'r Dderbynfa. Dychwelir y ffôn symudol/teclyn electroneg ar derfyn y diwrnod ysgol. Os bydd y dysgwr yn gwrthwynebu rhoi y ffôn/teclyn i'r aelod staff, bydd rhiant y dysgwr yn cael eu galw i'r ysgol. Os bydd y dysgwr yn torri'r rheol yn rheolaidd, cedwir y ffôn hyd nes bydd rhiant wedi dod i'r ysgol i'w nôl ac i drafod y mater.

**Noder:** bydd dysgwyr sy'n ddibynnol ar offer electronig i reoli cyflyrau meddygol fel clefyd siwgr wedi eu heithrio o'r polisi ac wedi eu nodi ar ein cofrestr meddygol brys.

### DEFNYDDIO'R RHYNGRWYD
Mae'r rhyngrwyd yn cynnig ei hun fel arf pwerus iawn ym myd addysg – arf sydd yn cynorthwyo disgyblion i ehangu eu gorwelion dysgu mewn ysgolion ac yn y cartref. Mae angen, fodd bynnag, i'r cyfrwng hwn gael ei ddefnyddio'n ddiogel. Os yw'n cael ei ddefnyddio mewn ffordd amhriodol neu ddiniwed gall arwain at blant yn rhoi eu hunain ac eraill mewn perygl. Amgaeaf gopi o Bolisi Defnyddwyr Rhyngrwyd yr ysgol.

### Ymweliadau Addysgol
Trefnir nifer o ymweliadau addysgol gan yr ysgol. Gall y rhain fod yn deithiau cyfandir, teithiau preswyl yn y wlad yma neu yn ymweliadau diwrnod. Anfonir llythyr yn esbonio'r trefniadau i'r rhieni ac yn gofyn am eu caniatâd.

# Clybiau a Chymdeithasau

Mae amrywiaeth eang o'r rhain yn yr ysgol, dyma enghreifftiau:-
Cangen yr Urdd, Côr, Cerddorfa, Clwb Garddio, Clwb Coginio, Clwb Gwyddoniaeth, Gwersi Mandarin ac Ieithoedd Modern (ar ôl ysgol), yn ogystal â llu o dimau mewn chwaraeon fel Pêl Droed, Rygbi, Criced, Pêl Fasged, Hoci, Pêl Rwyd, Tenis ac Athletau a bydd cyfle i bawb gystadlu yn Eisteddfod yr Ysgol.

Hysbysir disgyblion o'r ddarpariaeth sydd ar gael a gofynnir iddynt roi gwybod i'w tiwtor dosbarth os ydynt yn ymddiddori mewn rhyw weithgarwch nad yw'n rhan o raglen yr ysgol. Trefnir nifer o glybiau/gweithgareddau ar ôl ysgol yn flynyddol.



## 7. GENERAL

**TOBACCO, VAPES, ALCOHOL** and **DRUGS** are not permitted on school grounds or on any trip/visit organised by the school. Any pupil involved in the possession of, or distribution of, illegal substances faces permanent exclusion from Ysgol David Hughes.
**PUPILS ARE NOT PERMITTED TO BRING ANY DANGEROUS EQUIPMENT TO SCHOOL eg KNIVES**
**PUPILS MUST BE FAMILIAR WITH THE SCHOOLS FIRE REGULATIONS AND CRITICAL INCIDENT PROCEDURES (LOCKDOWN)** and also the safety regulations in specific subjects. These regulations must be adhered to for everyone's safety.

### Home and School Contact

Parents are encouraged to take an active interest in their children's education and to develop a healthy relationship between the school and the home. To this end Parents' Meetings are held for each year group in turn. Parents are also invited to the various functions which are organised by the school. The Class Charts and the Gateway School websites are an effective way of contacting the school and monitoring your child's work. Individual interviews with the Headteacher may also be arranged at the school, provided that the arrangement is confirmed in advance by letter or by telephone.

## Mobile Phones

### GUIDELINES – RESPONSIBLE USE OF TECHNOLOGY

This technological age offers several benefits to learners, but the school also must deal with the side effects of the misuse of this technology. We ask for your support and co-operation with the following:-

### MOBILE PHONES- Mobile Phones and Personal Electronic Equipment

As you are aware, learners should not bring mobile phones or personal electronic equipment to school. We have had examples of phones disrupting lessons, learners taking pictures and videos with a camera on their phones without consent; learners sending disrespectful messages to each other and even communicating to arrange a meeting in the toilets during lessons etc. In addition, the exam boards have strict rules and will disqualify learner if they are caught with a phone in their possession.
Any learner who needs to use a telephone during the day can use the school phone, by visiting the Reception or PORTH.

**DISCIPLINARY PROCEDURE**

If a learner uses a mobile phone or any personal electronic equipment while on the school premises they will be sanctioned in accordance with the school's 'Promoting Good Behaviour' policy. The individual will be expected to give their phone or device to a member of staff who will keep it in an envelope with the learner's name on it either in the Porth or Reception. The mobile phone/electronic device will be returned at the end of the school day. If the learner objects to giving the phone/device to the staff member, the learner's parent will be called to the school. If the learner regularly breaks the rule, the phone will be kept until a parent has come to the school to pick it up and discuss the matter.

**Note:** Learners who are dependent on electronic equipment to manage medical conditions such as diabetes will be exempt from the policy and noted on our emergency medical register.

### USE OF THE INTERNET

The internet is a very powerful tool in the world of education – a tool that assists pupils to broaden their learning horizons in schools and in the home. There is a need, however, for this medium to be used safely. Used inappropriately, or naively, it can lead to pupils placing themselves and others at risk. I enclose a copy of our school Internet User Policy.

## Educational Visits

A number of educational visits is arranged by the school. These may be visits to the continent, residential visits in this country or day trips. A letter explaining the arrangements and asking their permission is sent to the parents.

## Clubs and Societies

A wide variety of these are available within the school, here are a few examples: -
A Branch of 'Urdd Gobaith Cymru' (the Welsh League of Youth), a Choir, an Orchestra,Gardering Club, Cooking Club, Science Club, Mandarin and Modern Languages Classes (after school) as well as a host of teams who participate in sports which include Football, Rugby, Cricket, Basketball, Hockey, Netball, Tennis and Athletics and everyone will have an opportunity to compete in the School Eisteddfod.
Pupils are informed of the provision which is available and they in turn are required to inform their form tutor of their particular interests, which may not be covered by the school's programme. A number of after school clubs/activities are arranged each year.

# Cytundeb Partneriaeth rhwng Rhiant, Disgybl a'r Ysgol

Mae cytundebau partneriaeth yn rhoi'r fframwaith ar gyfer datblygu dealltwriaeth rhwng y cartref a'r ysgol er mwyn galluogi'r disgybl i gael budd o'r addysg sy'n cael ei darparu. Cafodd y cytundeb isod ei baratoi er mwyn datgan yn eglur nod yr ysgol a sefydlu rôl yr ysgol, y rhieni a'r disgyblion yn y bartneriaeth hanfodol hon. Nod sylfaenol yr ysgol yw darparu addysg o ansawdd mewn amgylchedd cartrefol ac annog pob disgybl i wneud ei orau. Mae cyfraniad pob un o'r partneriaid i'r datblygiad hwn wedi ei rhestru yn y cytundeb.

| | **Fel ysgol byddwn yn gwneud ein gorau:-** | **Fel rhiant byddaf yn gwneud fy ngorau:-** | **Fel disgybl byddaf yn gwneud fy ngorau:-** |
|---|---|---|---|
| ***Safon yr Addysg*** | • i ddarparu'r addysg orau o ystyried yr adnoddau sydd ar gael<br>• i gynnig cwricwlwm eang, cytbwys a pherthnasol yn seiliedig ar ofynion y Cwricwlwm Cenedlaethol<br>• i osod targedau blynyddol | • i gymryd diddordeb yng ngwaith fy mhlentyn<br>• i'w annog i wneud ei orau bob amser<br>• i'w annog i wrando ar yr athro a gweithio'n galed yn y dosbarth | • i wrando ar yr athrawon a gweithio'n galed yn y dosbarth<br>• i wneud fy ngorau glas i gwblhau pob tasg<br>• i anelu at ennill y radd uchaf am ymdrech bob amser |
| ***Ethos yr Ysgol*** | • i hyrwyddo agweddau cadarnhaol ac arddel disgwyliadau uchel<br>• i hyrwyddo parch tuag at athrawon, disgyblion a'r gymuned.<br>• i hyrwyddo datblygiad ysbrydol, moesol, diwylliannol a chymdeithasol pob plentyn | • i gefnogi fy mhlentyn yn yr hyn a ddisgwylir gan yr ysgol, ee, gwisg ysgol, ymddygiad addas<br>• i annog fy mhlentyn i fod yn foesgar, a chwrtais gan ddangos parch tuag at eraill<br>• i ddangos diddordeb yng ngweithgareddau''r ysgol ac annog fy mhlentyn i gymryd rhan | • i ymdrechu hyd eithaf fy ngallu bob amser<br>• i fod yn foesgar, yn gwrtais ac i ddangos parch tuag at eraill<br>• i gymryd rhan yng ngweithgareddau'r ysgol |
| ***Presenoldeb Rheolaidd*** | • i annog presenoldeb a phrydlondeb da<br>• i ddwyn presenoldeb gwael neu afreolaidd i sylw'r rhieni a chymryd y camau priodol i ddelio â'r broblem | • i wneud yn siŵr fod fy mhlentyn yn mynychu'r ysgol bob dydd<br>• i hysbysu'r ysgol pan fydd fy mhlentyn yn absennol | • i fynychu'r ysgol bob dydd<br>• i fynychu pob gwers<br>• i fod yn brydlon yn yr ysgol ac ym mhob gwers |
| ***Disgyblaeth ac Ymddygiad*** | • i sicrhau bod pob disgybl yn ymddwyn yn ôl disgwyliadau'r ysgol<br>• i sicrhau bod pob disgybl yn parchu'r staff, yn parchu ei gilydd ac yn parchu'r adeilad ac eiddo'r ysgol ac eraill | • i annog fy mhlentyn i ymddwyn yn deilwng bob amser<br>• i annog fy mhlentyn i gydymffurfio â disgwyliadau'r ysgol ac i barchu pob un o'r staff a'r disgyblion eraill | • i ymddwyn yn rhesymol y tu mewn a'r tu allan i'r ysgol, gan barchu staff yr ysgol a'r disgyblion eraill a rheolau'r ysgol<br>• i barchu adeilad yr ysgol, eiddo'r ysgol ac eiddo fy nghyd ddisgyblion |
| ***Gwaith Cartref*** | • i ddarparu cyfrif mewngofnodi rhaglen/ap 'Class Charts' ar gyfer pob disgybl ac i osod gwaith cartref yn rheolaidd<br>• i fynnu gwaith o'r safon uchaf<br>• i fynnu bod pob gwaith cartref yn cael ei gwblhau yn brydlon | • i annog fy mhlentyn i gwblhau pob gwaith cartref yn brydlon<br>• i edrych ar gyfrif gwefan/ap 'Class Charts' fy mhlentyn yn rheolaidd | • i ddiweddaru fy nghyfrif gwefan/ap 'Class Charts'<br>• i wneud fy ngorau glas i orffen pob gwaith cartref a'i gyflwyno'n brydlon |
| ***Cefnogaeth Fugeiliol*** | • i ofalu am ddiogelwch a lles pob plentyn<br>• i ddarparu trefn gynhaliol sydd yn rhoi clust i bryderon ac yn ymateb iddynt. | • i roi gwybod i'r ysgol am unrhyw bryderon a allai effeithio ar gynnydd fy mhlentyn | • i hysbysu fy nhiwtor dosbarth neu'r Pennaeth Blwyddyn os bydd gennyf unrhyw bryderon a allai effeithio ar fy ngwaith neu ar fy hapusrwydd yn yr ysgol |
| ***Cysylltiadau rhwng yr Ysgol a'r Cartref*** | • i gynnal nosweithiau rhieni rheolaidd i drafod cynnydd<br>• i ddarparu adroddiadau blynyddol a marciau asesu<br>• hysbysu rhieni am ddatblygiadau a gweithgareddau, ee, trwy'r Bwletin Rhieni | • i fynychu cyfarfodydd rhieni<br>• i ddarllen llythyrau ac unrhyw ohebiaeth arall o'r ysgol ac ymateb iddynt<br>• cefnogi ymdrechion yr ysgol i ymateb i dangyflawni | • i fynd â phob llythyr a gohebiaeth arall adref a'u rhoi i'm rhieni yn syth |

**Enw'r Disgybl................................................ Dosbarth ............ Llofnod Disgybl ........................................................ Dyddiad ................**

**Llofnod Rhiant ............................................................................. Dyddiad .................................................................**

**Arwyddwyd ar ran yr ysgol ........................................................................................................ PENNAETH**

# Partnership Agreement Between Parent, Pupil and School

Partnership agreements provide the framework for the development of understanding between home and school to enable all pupils to benefit fully from the education provided. The agreement below has been prepared to clarify the school's aims and sets out the role of the school, parents and pupils in this vital partnership. The basic aim of the school is to provide quality education in a caring environment and encourage all pupils to do their best. The contribution of each of the partners to this development is listed below.

| | As a school we will do our best to :- | As a parent I will do my best to :- | As a pupil I will do my best to :- |
|---|---|---|---|
| ***Standards of Education*** | • provide the highest possible standards of education within the resources available<br>• offer a broad, balanced and relevant curriculum based on the requirements of the National Curriculum<br>• set annual targets | • take an interest in my child's work<br>• encourage my child to do his/her best at all times<br>• encourage my child to listen to the teacher and to work hard in class | • listen to the teachers and work hard in class<br>• complete all tasks to the best of my ability<br>• aim to achieve a top grade for effort at all times |
| ***Ethos of the School*** | • foster positive attitudes and encourage high expectations<br>• foster respect towards teachers, pupils and the community<br>• foster the spiritual, moral, cultural and social development of each child | • support my child in meeting what is expected of him/her at school, eg, school uniform, appropriate behaviour<br>• encourage my child to be polite, courteous and to show respect towards others<br>• take an interest in the school's activities and encourage my child to participate | • aim to give of my best at all times<br>• be polite, courteous and show respect to others<br>• participate in school activities whenever possible |
| ***Regular and Punctual Attendance*** | • encourage good attendance and punctuality<br>• draw parents' attention to poor or irregular attendance and take appropriate steps to deal with the problem | • ensure that my child attends school every day<br>• notify the school if my child is absent | • attend school every day<br>• attend every lesson<br>• be punctual to school and every lesson |
| ***Discipline and behaviour*** | • ensure that all pupils behave in accordance with the school's expectations<br>• ensure that all pupils respect staff, each other, the building and the property of the school and other pupils | • encourage my child to have high standards of behaviour at all times<br>• encourage my child to comply with the school's expectations and to respect all staff and other pupils | • behave reasonably inside and outside the school, respecting staff and other pupils and the school rules<br>• respect the school building, property of the school and other pupils' property |
| ***Homework*** | • provide each pupil with a 'Class Charts' website/app login account and set homework on a regular basis<br>• insist on the highest standards of homework<br>• expect all homework to be completed on time | • encourage my child to complete all homework to the best of his/her ability and on time<br>• look at my child's 'Class Charts' website/app account regularly | • update my 'Class Charts' website/app account<br>• complete all homework to the best of my ability and hand it to my teacher on time |
| ***Pastoral Support*** | • care for the safety and welfare of every child<br>• provide a supportive system, listening and responding to any concerns | • inform the school of any problems which might affect my child's progress | • inform my form tutor or Head of Year if I have any worries which might affect my work or happiness in school |
| ***Links between School and Home*** | • hold annual parents evenings to discuss progress<br>• provide annual reports and assessment grades<br>• inform parents of developments and activities, eg, through the Parents' Bulletin | • attend parents meetings<br>• read letters and other communications from the school and respond, if necessary<br>• support the school in its efforts to respond to under-achievement | • take all letters and other communications home and given them to my parents straight away |

**Name of Pupil** ..................................... **Form** .................. **Pupil's Signature**..................................... **Date** ..............

**Parent's Signature** ........................................................... **Date** ..................................................................................

**Signed on behalf of the school** ................................................................................................ **HEADTEACHER**

# Presenoldeb

Ni all unrhyw ddisgybl fynd oddi ar diriogaeth yr ysgol yn ystod oriau ysgol oni chaiff ganiatâd gan Aelod o'r Tîm Rheoli. Yn achos disgyblion ym Mlynyddoedd 7-11, dylai rhieni neu warcheidwaid wneud cais ysgrifenedig i ganiatâd o'r fath.

Mae presenoldeb rheolaidd yn yr ysgol yn hanfodol os yw'r disgyblion i fanteisio'n llawn ar y cyfleoedd addysgol sydd ar gael iddynt. Er mwyn cynnal a gwella presenoldeb yn yr ysgol rydym wedi mabwysiadu **trefn gyswllt diwrnod cyntaf** drwy ddefnyddio system gyfathrebu 'Schoolcomms'. Mae system 'Schoocomms yn gallu anfon neges destun neu neges llais awtomatig yn uniongyrchol at rieni a gofalwyr. Gyda'ch cefnogaeth a'ch cydweithrediad gobeithiwn y gallwn wella'r sefyllfa. Gofynnwn i chi ddilyn y camau isod pan fydd eich plentyn yn absennol.

1. **Hoffem i chi gysylltu gyda'r ysgol, cyn 8.30am, bob bore y mae eich plentyn yn absennol, i egluro'r absenoldeb (oni bai bod trefniadau blaenorol wedi'u gwneud):**
   **Ffonio: 01248 712287 (rhwng 8.00am ac 8.30am) NEU**
   **01248 718070 (peiriant ateb cyn 8.00am ac ar ôl 4.00pm) NEU**

**drwy e-bost post@ysgoldavidhughes.org neu gadael neges ar Ap Class Charts neu Gateway.**
**Os na fydd yr ysgol wedi derbyn galwad ffôn erbyn 8.30 o'r gloch yn esbonio absenoldeb eich plentyn, bwriedir cysylltu â chwi drwy yrru neges testun.**

Mawr obeithiwn y byddwch yn ffonio'r ysgol ar y diwrnod cyntaf o absenoldeb eich plentyn. Mae presenoldeb llawn yn gallu gwneud gwahaniaeth mawr i addysg eich plentyn.

1. Dylai rhieni neu warcheidwad sy'n mynd ar wyliau blynyddol yn ystod tymor ysgol gwblhau ffurflen wyliau ymlaen llaw (i'w chael yn Swyddfa'r Ysgol) a'i dychwelyd i'r Porth.
2. Ymweliadau â'r deintydd: Dylid trefnu'r rhain lle bo modd y tu allan i oriau ysgol. Rhaid dangos cerdyn deintydd pan fo'r ymweliad yn ystod oriau ysgol.
3. Ymarfer Corff: Os yw disgybl yn dymuno cael ei esgusodi o wersi ymarfer corff, rhaid iddo gael nodyn gan ei riant neu warcheidwad (am gyfnod o un diwrnod yn unig) neu dystysgrif feddygol (am gyfnod estynedig neu barhaol).
4. Rhaid i ddisgybl sy'n dod i'r ysgol yn hwyr fynd I gofrestru drwy'r dderbynfa.

**PRESENOLDEB 2024/2025**

| Blwyddyn Ysgol | Yn bresennol (%) | Absenoldebau â chaniatâd (%) | Absenoldebau heb ganiatâd (%) |
|---|---|---|---|
| 7 | 90.2 | 6.2 | 1.3 |
| 8 | 86.1 | 8.2 | 4.1 |
| 9 | 84.6 | 8.6 | 4.8 |
| 10 | 77.4 | 11.1 | 6.7 |
| 11 | 72.9 | 17.2 | 6.6 |
| **Pob oedran** | **82.24** | **8.5** | **4.1** |

# Attendance

No pupil may leave the school premises during school hours unless official permission has been granted by a member of the management team, In the case of pupils in Years 7-11, parents or guardians should seek such permission in writing

Regular attendance is essential if pupils are to take full advantage of the educational opportunities presented to them. In order to improve the overall attendance in school, we have adopted a **first day contact system** using the communication system 'Schoolcomms. The 'Schoolcomms' system securely sends text messages and/or automated voice broadcasts direct to parents and carers. With your backing and co-operation, we hope that we can improve the situation. We ask you to take the following steps when your child is absent.

1. **Please contact the school, before 8.30am, every morning that your child is absent, to explain reason of absence (Unless prior arrangements have been made) :**
   **Phone: 01248 712287 (between 8.00am and 8.30am) OR**
   **01248 718070 (answer machine – before 8.00am and after 4.00pm) OR**
   **e-mail to post@ysgoldavidhughes.org or leave a message on the Class Charts or Gateway App**
2. **If the school has not received a call by 8.30 explaining why your child is absent, we intend to contact you via text message.**

We hope that you will phone the school on your child's first day of absence. Full attendance can make a real difference to your child's educational achievements.

1. Parents or guardians on annual holiday during term-time must complete a holiday form in advance. This form is available from the School Office and should be returned to the Porth.
2. Dental appointments: Where possible these should be arranged outside school hours. Appointments Cards must be produced when the visit is during school hours.
3. Physical Education: A pupil who wishes to be excused from physical education on medical grounds must produce a note from their parent or guardian (for a period of one day only) or a medical certificate (for an extended or permanent period).
4. Pupils who arrive late for school must register through reception.

## ATTENDANCE 2024/2025

| Year | Attended (%) | Authorised absences (%) | Unauthorised absences (%) |
|---|---|---|---|
| 7 | 90.2 | 6.2 | 1.3 |
| 8 | 86.1 | 8.2 | 4.1 |
| 9 | 84.6 | 8.6 | 4.8 |
| 10 | 77.4 | 11.1 | 6.7 |
| 11 | 72.9 | 17.2 | 6.6 |
| **All ages** | **82.24** | **10.26** | **4.7** |

# Gwyliau yn ystod Tymor Ysgol

## YSTYRIWCH

Mae presenoldeb cyson yn hanfodol wrth sicrhau bod eich plentyn yn
cael y cyfle gorau posib i lwyddo.

↓

## Arhoswch!

